

Ymgynghoriad crynodeb o'r ymatebion



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Brexit a'n Moroedd

Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	4
3. Crynodeb o'r Ymatebion	6
Yr Amgylchedd Morol: Cwestiynau 1 – 3	6
Pysgodfeydd Cynaliadwy: Cwestiynau 4 – 6	8
Cyfleoedd pysgota: Cwestiynau 7 – 10.....	10
Pysgod Cregyn a Dyframaethu: Cwestiynau 11 – 13	11
Masnach: Cwestiynau 14 – 16.....	13
Twf ac Arloesi: Cwestiynau 17 – 19.....	14
Cynaliadwyedd y Fflyd: Cwestiynau 20 – 22	15
Tystiolaeth: Cwestiynau 23 – 26.....	16
Cyllid a Chymorth: Cwestiynau 27 – 29.....	17
Ymatebion Rhydd	20
4 Cyfarfodydd ymgynghori â Rhanddeiliaid	21
Atodiad A – Rhestr o'r Sefydliadau a Ymatebodd	23
Atodiad B: Crynodeb Manwl o'r Ymatebion.....	24

1. Cyflwyniad

- 1.1 Ar 1 Mai 2019, cyhoeddodd y Prif Weinidog a Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd. Yr ymgynghoriad oedd y cam cyntaf yn y broses o greu polisi newydd i sicrhau bod amgylchedd morol Cymru a fflydoedd pysgota yn gallu ffynnu mewn byd ar ôl yr UE. Gofynnodd am farn ar sut y dylai Llywodraeth Cymru deilwra'r broses o Reoli Pysgodfeydd ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) a thynnu'n ôl o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC).
- 1.2 Yr ymgynghoriad yw dechrau sgwrs sy'n ceisio creu polisiau, cyfundrefnau rheoli a deddfwriaeth newydd ar gyfer Pysgodfeydd Cymru. Galwodd am safbwyntiau ar y canlynol:
- rheoli pysgodfeydd
 - pysgodfeydd cynaliadwy
 - cyfleoedd pysgota
 - pysgod cregyn a dyframaethu
 - Masnach
 - twf ac arloesi
 - Cynaliadwyedd y fflyd
 - tystiolaeth, a
 - chyllid a chymorth.
- 1.3 Esboniodd y ddogfen ymgynghori y bydd ymadael â'r UE yn gyfle i Gymru bennu ein polisiau pysgodfeydd ein hunain, a theilwra'r polisiau hyn i anghenion unigryw diwydiant pysgota Cymru.
- 1.4 Nododd ddeddfwriaeth bresennol yr UE y mae Llywodraeth Cymru yn rheoli pysgodfeydd oddi tani, a deddfwriaeth Cymru a'r DU a fydd yn parhau i lywio polisi yn y dyfodol. Yn benodol, roedd y ddogfen yn pwysleisio'r ymrwymiad i egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ailadroddodd ymrwymadau Llywodraeth Cymru i'r amgylchedd morol fel y'u hymgorfforwyd yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2009 a Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Bydd y tri darn hyn o ddeddfwriaeth wrth wraidd polisi Cymru yn y maes hwn yn y dyfodol. Roedd y ddogfen hefyd yn rhwymo Llywodraeth Cymru i barhau i gynnal a gorfodi'r un safonau amgylcheddol ag y maent yn cadw atynt ar hyn o bryd o dan y PPC.
- 1.5 Gallai sefydliadau a'r cyhoedd ymateb i'r ymgynghoriad trwy dri chyfrwng: ar-lein, drwy'r post ac mewn e-bost. O ystyried yr amrywiaeth eang o feysydd a gwmpesir, cafodd cardiau post eu cynhyrchu a'u dosbarthu i annog pysgotwyr i ymateb mewn e-bost os nad oeddent am gwblhau'r ffurflen ymgynghori lawn.

Yn ogystal â gwahodd ymatebion ysgrifenedig trwy'r cyfryngau a restrir uchod, trefnwyd pum cyfarfod agored mewn cymunedau arfordirol ledled Cymru. Cynhaliwyd cyfarfod hefyd gyda chynrychiolwyr Cyswllt Amgylchedd Cymru.

2. Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

- 2.1 Cyflwynwyd cyfanswm o 57 o ymatebion i'r ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd. Roedd un ymateb yn ddyblyg ac ni chafodd ei gynnwys yn y dadansoddiad. Anfonodd un ymatebydd, yr RSPB, ddau ymateb ar wahân, un drwy'r ffurflen ac un ymateb rhydd. Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion gwag. Felly, cafodd 56 o ymatebion sylweddol, gan 55 o ymatebwyr unigryw, eu cynnwys yn y dadansoddiad ar gyfer yr Adroddiad Cryno hwn.
- 2.2 Cyflwynwyd ymatebion trwy ffurflen ar-lein. Cynigiwyd yr opsiwn o lenwi'r ffurflen all-lein a'i dychwelyd mewn e-bost hefyd, yn ogystal â dychwelyd y ffurflen drwy'r post. Ni ddefnyddiwyd y llwybr post gan unrhyw ymatebydd; gwnaeth pedwar ymatebydd e-bostio ymateb rhydd heb ddefnyddio'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad. Crynhoir hyn yn Nhabl 1.1.

Tabl 1.1: Llwybrau ymateb

Llwybr ymateb	Nifer yr ymatebion
Ffurflen a gyflwynwyd ar-lein	30
Ffurflen a e-bostiwyd	21
Ymateb rhydd a e-bostiwyd	4
Post	0

- 2.3 Ni chafwyd unrhyw ymatebion yn y Gymraeg yn unig. Derbyniwyd dau ymateb yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 2.4 Anfonodd dwy Gymdeithas Bysgota yr un ymateb. Anfonodd cymdeithasau pysgota eraill ymatebion tebyg iawn, ond wedi'u teilwra i'w hamgylchiadau penodol.
- 2.5 Ni wnaeth pob ymatebydd ateb pob cwestiwn. Crynhoir hyn yn Nhabl 1.2.

Tabl 1.2: Crynodeb o'r ymatebion sylweddol i gwestiynau agored yr ymgynghoriad

Cwestiwn	*Ymatebion
C1	43
C2	43
C3	43
C4	44
C5	33
C6	36
C7	38
C8	34

Cwestiwn	*Ymatebion
C9	31
C10	32
C11	38
C12	34
C13	29
C14	35
C15	40
C16	37
C17	35
C18	33
C19	35
C20	35
C21	30
C22	33
C23	37
C24	37
C25	34
C26	33
C27	35
C28	36
C29	29

**Mae dim ymateb, 'dim sylw' ac 'amherthnasol' wedi'u cyfrif fel dim ymateb. Mae ymatebion thematig i fwy nag un cwestiwn wedi'u cyfrif ar gyfer pob cwestiwn a nodwyd yn yr ymateb.*

2.6 Ni ofynnwyd i ymatebwyr nodi eu buddiannau neu eu sector, ond gofynnwyd iddynt am eu sefydliad (os o gwbl). Mae dadansoddiad o ymatebion yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn Nhabl 1.3.

Tabl 1.3: Math o sefydliad a restrwyd gan yr ymatebwyr

Math o sefydliad	Nifer
Dim/dim ymateb	18
Buddiannau amgylcheddol/eNGOs	10
Cymdeithasau Pysgotwyr	6
Y Sector Preifat	8
Llywodraeth Leol	3
Perchnogion/Capteiniaid Cychod	3
Genweirio	2
Undebau Llafur	1
*Arall	4

**Cymdeithas Porthladdoedd Prydain, Ystâd y Goron, PLANED a Menter a Busnes*

- 2.7 Crynhowyd yr holl ymatebion mewn cronfa ddata ganolog. Yna, gwerthuswyd pob ymateb yn erbyn y cwestiwn perthnasol i nodi'r safbwyntiau amlycaf ac amgen a oedd yn deillio o'r ymatebion. Mae ymatebion cyffredinol nad oeddent yn cyfeirio'n uniongyrchol at gwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u dadansoddi a'u priodoli i'r cwestiwn perthnasol. Ceir crynodeb manylach o'r ymatebion yn Atodiad B.

3. Crynodeb o'r Ymatebion

Yr Amgylchedd Morol: Cwestiynau 1 – 3

- 3.1 Gofynnodd yr adran gyntaf dri chwestiwn am yr Amgylchedd Morol. Rhoddodd rhai ymatebwyr ymateb cyffredinol a oedd yn cwmpasu mwy nag un o'r tri chwestiwn cyntaf, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad ar gyfer y cwestiynau mwyaf perthnasol.
- 3.2 Y cwestiwn cyntaf oedd: **Beth allai Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu gyda'r gwaith o weithredu'r Cynllun Morol unwaith y bydd wedi'i fabwysiadu?**
- 3.3 Atebwyd y cwestiwn hwn gan 43 o ymatebwyr, naill ai ar wahân neu ar y cyd â chwestiynau eraill.
- 3.4 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn a roddodd farn ar WNMP yn cefnogi gweithredu'r cynllun hwn.
- 3.5 Fodd bynnag, cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at yr angen i integreiddio WNMP gyda chynlluniau a strategaethau eraill ac i Lywodraeth Cymru beidio â gweithredu mewn seilo. Roedd hyn mewn perthynas â'r amgylchedd morol a'r effaith mae rheoli tir yn ei chael ar yr amgylchedd morol. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y ffocws ar bysgodfeydd, gan eithrio ystyriaethau morol yn nogfen ymgynghori Brexit a'n Moroedd, yn dangos tystiolaeth o waith seilo, diffyg meddwl cydgysylltiedig a chyfle wedi'i wastraffu i geisio barn ehangach ar Brexit.
- 3.6 Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at yr angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu framweithiau a chanllawiau clir ar weithredu WNMP.
- 3.7 Gofynnodd cwestiwn 2: **Sut gallai Cymru wella iechyd a chydnerthedd ecosystemau morol er mwyn rhoi rhagor o gymorth i gymunedau arfordirol ffynnu?**
- 3.8 Cafwyd 43 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, naill ai ar wahân neu ar y cyd â chwestiynau eraill.
- 3.9 Nododd sefydliadau amgylcheddol mai ecosystemau iach a chydnerth yw conglfeini economïau gwledig cynaliadwy, bod rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (AMG) yn rhan annatod o hyn ac y dylai Llywodraeth Cymru

ddarparu prif gyllid craidd ar gyfer rheoli safleoedd AMG. Cafodd dull seiliedig ar ecosystemau addasol ei hyrwyddo gan y rhain a'r cymdeithasau pysgota fel y ffordd o helpu cymunedau arfordirol i ffynnu.

- 3.10 Awgrymodd un ymatebydd y byddai canolbwyntio ar bysgodfeydd y glannau a lleihau pysgota ar y môr yn gwella dalfeydd a phrosesu lleol, gan greu neu wella marchnadoedd lleol a rhoi hwb i gymunedau.
- 3.11 Roedd gorfodaeth yn thema gyffredin yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn. Dyma rai o'r awgrymiadau ar gyfer meysydd sydd angen eu gorfodi: tymhorau caeedig ar stociau pysgod yn ystod silio, terfynau maint, cyfyngu'n ddifrifol neu wahardd rhwydi drysu a chyfyngu neu ddileu mynediad i bysgodfeydd, yn arbennig i gychod nad ydynt yn dod o Gymru neu'r DU.
- 3.12 Nododd sawl ymatebydd fod dyframaethu yn ffordd o wella cymunedau arfordirol. Awgrymwyd gwella'r broses ddeddfwriaethol ar gyfer ffermio dyframaethu a darparu cyllid ar gyfer agweddau ar ddyframaethu megis ymchwil, sefydlu ffermydd, hyfforddiant a marchnata. Awgrymwyd amaethu dwygragennog ar wely'r môr ac ar lan y môr fel blaenoriaeth, ynghyd â gwymon.
- 3.13 Codwyd pwysigrwydd cwtâu teg mewn sawl ymateb. Roedd un ymateb yn argymhell defnyddio pwerau presennol neu greu pwerau newydd i ddiogelu cymunedau pysgota lleol rhag systemau cwtâu annheg ac amgylcheddol niweidiol. Roedd ymatebion eraill yn argymhell gwladoli cwtâu pysgota fel bod modd eu dosbarthu yn ôl angen cymunedol a stociau pysgod.
- 3.14 Pwysleisiodd cymdeithasau pysgota ac eraill bwysigrwydd dull cydweithredol o gynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol er mwyn rheoli moroedd Cymru ar gyfer cymunedau arfordirol.
- 3.15 Roedd ymatebion genweirwyr hamdden yn argymhell pwysigrwydd ymgynghori â nhw, gan fod ganddynt ddyfnder o brofiad a chofnodion manwl o ddalfeydd a gan fod eu gweithgarwch wedi'i gyfeirio'n benodol at gymunedau arfordirol. Nodwyd pwysigrwydd genweirwyr hamdden i economïau lleol, gan ddadlau eu bod yn cyfrannu mwy na physgota masnachol. Un awgrym oedd cynnwys darpariaethau i hyrwyddo a datblygu genweirio môr yng Nghymru yn y Cyddatganiad Pysgodfeydd.
- 3.16 Gofynnodd cwestiwn 3: **Sut y gallem gefnogi camau ymarferol a fyddai o les i fioamrywiaeth er mwyn helpu i sicrhau bod ecosystemau morol yn gydnherth?**
- 3.17 Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai ymwreiddio dyletswyddau Deddf yr Amgylchedd, gan gynnwys dyletswydd bioamrywiaeth Adran 6, ym mhob deddfwriaeth a pholisi morol yn y dyfodol yn arwain at ecosystemau cydnherth. Ond roeddent yn teimlo hefyd nad oes llawer o dystiolaeth bod hyn yn digwydd.

- 3.18 Roedd y sefydliadau pysgota am weld Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio'n agosach gyda'r diwydiant pysgota i gasglu data i asesu statws bioamrywiaeth forol a'r pwysau.
- 3.19 Awgrymwyd hefyd y dylid mynd i'r afael â sbwriel môr trwy ddirwyon trwm.
- 3.20 Dywedodd Sefydliadau Amgylcheddol fod y Fframwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (AMG) a'r Cynllun Gweithredu yn sylfaenol ddiffygiol gan nad ydynt yn cefnogi'r egwyddor ragofalus. Roeddent yn dadlau, lle mae data yn ddiffygiol, y dylai Llywodraeth Cymru weithredu'r egwyddor ragofalus a rhoi terfyn ar weithgareddau a allai fod yn niweidiol, yn hytrach nag oedi nes bod yr holl dystiolaeth ar gael. Er eu bod yn croesawu'r camau i gael mwy o gyfranogiad gan Grŵp Cynghori a Gweithredu Morol Cymru (WMAAG), nodwyd bod rhanddeiliaid wedi'u heithrio rhag gwneud sylwadau ar y cynllun gweithredu, gan eithrio'r wybodaeth a'r profiad sydd ar gael yn WMAAG a pheidio â dilyn y ffyrdd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Pysgodfeydd Cynaliadwy: Cwestiynau 4 – 6

- 3.21 Gofynnodd yr ail adran gwestiynau am reoli pysgodfeydd yn gynaliadwy. Mae'r adran hon yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion uniongyrchol i'r cwestiynau hyn ac ymatebion mwy cyffredinol ar y thema hon.
- 3.22 Gofynnodd cwestiwn 4: **Pa fentrau y gellid eu defnyddio i wella cynaliadwyedd hirdymor pysgodfeydd yng Nghymru?**
- 3.23 Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cytuno bod pysgota i lefelau cynaliadwy yn hanfodol ar gyfer dyfodol pysgodfeydd a'r amgylchedd morol yng Nghymru. Ymatebodd sefydliadau pysgodfeydd y byddai dull strategol sy'n darparu cydreolaeth addasol yn arwain at stociau pysgod iach a fflyd bysgota fywiog. Byddai'r dull hwn yn cael ei ategu gan elfennau megis asesiadau stoc, systemau monitro fflyd a stoc a'r defnydd o dechnoleg a systemau trin data CAMPUS.
- 3.24 Cytunodd sefydliadau amgylcheddol hefyd fod rhaid i bysgota ddigwydd ar lefelau cynaliadwy, a phwysleisiodd bwysigrwydd defnyddio'r cyngor gwyddonol sydd ar gael i sicrhau bod stoc pysgod yn cael ei chynnal uwchlaw lefelau'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf (MSY). Roedd rhai sefydliadau yn poeni bod Llywodraeth Cymru yn edrych ar opsiynau gwahanol i'r MSY, gan mai'r MSY yw'r dull a ddefnyddir gan bron pob cyfundrefn pysgodfeydd datblygedig yn y byd.
- 3.25 Roedd y cymdeithasau pysgota yn cytuno ag awgrym Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddyraniad cwota 'cysylltiad â pharth'.

- 3.26 Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys rhoi mesurau ar waith i sefydlu parthau dim cymryd a gwahardd dal cimychiaid wyog.
- 3.27 Nododd Cyswllt Amgylchedd Cymru fod dileu sgil-ddalfa (gan gynnwys mamaliaid morol ac adar y môr) yn hanfodol ar gyfer pysgodfeydd cynaliadwy, gan argymhell y dylid gweithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU i ddatblygu mesurau lliniaru effeithiol, casglu data, adrodd a monitro, gyda'r nod yn y pen draw o leihau sgil-ddalfa i ddim.
- 3.28 Gofynnodd cwestiwn 5: **Sut y gallai Llywodraeth Cymru sicrhau mwy o hyblygrwydd gweinyddol a bod yn fwy ymatebol wrth reoli pysgodfeydd?**
- 3.29 Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cydnabod bod digon o ddata yn hanfodol er mwyn rheoli pysgodfeydd mewn modd hyblyg ac ymatebol. Felly, roedd sefydliadau yn croesawu'r cynnig yn ymgynghoriad diweddar Llywodraeth Cymru i osod System Monitro Cychod ar gyfer pob cwch o dan 12 metr yn nyfroedd Cymru.
- 3.30 Mae sicrhau bod y ddeddfwriaeth ar bysgodfeydd sylfaenol yn y CBG Cymreig yn nwylo deddfwrfa Cymru hefyd yn cael ei chodi fel anghenraid i alluogi'r hyblygrwydd gweinyddol i reoli amgylchedd morol deinamig. Nodir bod hyn wedi'i gynnwys ym Mil pysgodfeydd y DU, ond os bydd hynny'n methu, mae angen ystyried Bil Pysgodfeydd Cymru sydd â'r pwerau priodol.
- 3.31 Roedd cwestiwn 6 yn gofyn: **Sut y dylid cyflwyno rheoli addasol ar gyfer ystod ehangach o rywogaethau, os felly pa un fyddai'r flaenoriaeth?**
- 3.32 Ymatebodd cymdeithasau pysgota drwy ddweud y dylai rheolaeth addasol ddefnyddio gwybodaeth pysgotwyr, sy'n golygu y gall rheolwyr rhanbarthol a lleol addasu'n gyflym. Awgrymwyd hefyd y gellid defnyddio trwyddedau, gan ganolbwyntio i ddechrau nid ar rywogaethau'r ddalfa fwyaf a ganiateir (TAC) ond yn hytrach ar rywogaethau nad ydynt yn rhai TAC, megis cregyn bylchog a chregyn moch. Mae WFA-CPC yn awgrymu y gallai blaenoriaethu pysgodfeydd ar gyfer rheolaeth addasol ganolbwyntio ar:
- Bysgodfeydd sy'n dueddol o ddiodeff ffyniant a methiant
 - Pwysigrwydd economaidd pysgodfa i fflyd a chymunedau arfordirol Cymru
 - Statws stoc pysgod, er enghraifft, os oes tystiolaeth sy'n awgrymu bod lefel y cam-fanteisio uwchlaw'r MSY
- 3.33 Nododd sefydliadau amgylcheddol hefyd fod Cymru'n debygol o ddod yn gyfrifol am reoli ardal fwy o faint o fôr. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd lle mae'r stociau yn y cyflwr gwaethaf, megis penfras Môr Iwerddon a gwyniad Môr Iwerddon. Dylai'r rhain fod yn flaenoriaeth ar gyfer mesurau rheoli newydd.

3.34 Nododd ymatebwyr fod angen rheolaeth frys ar sawl rhywogaeth.

Cyfleoedd pysgota: Cwestiynau 7 – 10

3.35 Gofynnodd cwestiwn 7: **Sut, yn eich barn chi, y gellid rheoli stociau pysgod er budd ehangach pobl Cymru a'u cymunedau arfordirol?**

3.36 Mae'r ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol y dylid diogelu'r cyfleoedd pysgota yn nyfroedd Cymru o fewn y parth 12mf ar gyfer y fflyd lai o faint ar y glannau. Roedd llawer o'r ymatebion yn nodi hefyd na ddylid caniatáu i gychod yr UE bysgota yn nyfroedd Prydain.

3.37 Dadleuodd Cymdeithasau Pysgota y byddai buddsoddi yn y fflyd bysgota yn sicrhau twf economaidd a swyddi ychwanegol trwy welliannau mewn seilwaith, logisteg, prosesu ac arwerthiannau pysgod.

3.38 Dadleuodd sefydliadau amgylcheddol y dylid dyrannu unrhyw gwota ychwanegol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac annog arferion pysgota cynaliadwy. Dylai unrhyw gyfleoedd ychwanegol gydymffurfio â'r MSY hefyd.

3.39 Gofynnodd cwestiwn 8: **Pa fath o drefniadau yr hoffech eu gweld i helpu fflyd Cymru i addasu er mwyn iddi fedru manteisio i'r eithaf ar unrhyw gyfleoedd pysgota newydd?**

3.40 Nododd ymateb unigol gan bysgotwr y byddai dyraniad cwota blynyddol neu chwarterol yn helpu pysgotwyr i ddal eu dyraniad cwota ar yr adeg pan fo'r pysgod ar gael yn hytrach na chwota misol a allai gael ei wastraffu os nad yw'r pysgod yn y dŵr.

3.41 Dywedodd cymdeithasau pysgota a physgotwyr unigol y byddai angen help ar bysgotwyr i ddiweddarau neu fuddsoddi mewn cychod newydd sy'n gallu pysgota y tu hwnt i 12mf.

3.42 Rhestrwyd seilwaith porthladdoedd fel rhywbeth a fyddai angen cymorth. Mae hyn yn cynnwys pethau megis planhigion iâ, cyfleusterau storio oer a faniau oergell i yrru'r ddalfa i farchnadoedd.

3.43 Gofynnodd cwestiwn 9: **Sut y gallai'r diwydiant a chymunedau arfordirol greu cyfleoedd cyllido neu ariannol cynaliadwy ac o le y gallai'r cyfleoedd hynny ddod?**

3.44 Roedd y cymdeithasau pysgota yn cytuno ag awgrym Llywodraeth Cymru y gallai prydlesu cyfleoedd pysgota yn y tymor byr, lle mae capasiti yng Nghymru yn gyfyngedig, greu cyllid i gefnogi buddsoddiad yn niwydiant pysgota Cymru. Gallai'r buddsoddiad hwn gael ei ddefnyddio i fuddsoddi yng

nghapasiti'r fflyd, gwelliannau i borthladdoedd a harbwrs a gwell logisteg i farchnadoedd a chlodiant.

- 3.45 Gofynnodd cwestiwn 10: **Beth, yn eich barn chi, y gellid ei wneud i reoli rhywogaethau 'atal pysgota' mewn ffordd fwy effeithiol?**
- 3.46 Ymatebodd cymdeithasau pysgota drwy ddweud y byddai cynyddu dyraniad cwota Cymru yn gyffredinol yn rhoi'r hyblygrwydd i reoli rhywogaethau 'atal pysgota' posibl mewn ffordd hyblyg.
- 3.47 Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai VMS a Monitro Electronig o Bell yn helpu i reoli rhywogaethau 'atal pysgota' yn fwy effeithiol.
- 3.48 Roedd defnyddio cwota i reoli rhywogaethau 'atal pysgota' wedi'i gynnwys yn yr ymatebion hefyd. Roedd hyn yn cynnwys dull cronfa risg o reoli cwotâu ar y cyd i helpu cymunedau arfordirol i weithio gyda'i gilydd. Nododd ymatebwyr eraill y gellid defnyddio cwota ychwanegol fel cymhelliad i wella detholedd o ran offer ac ymddygiad.
- 3.49 Wrth ystyried modelau eraill ar gyfer rheoli rhywogaethau 'atal pysgota', rhestrowyd Norwy a Chanada fel enghreifftiau da.

Pysgod Cregyn a Dyframaethu: Cwestiynau 11 – 13

- 3.50 Gofynnodd cwestiwn 11: **A ydych yn cytuno â'n cynigion i reoli pysgod cregyn mewn ffordd hyblyg? A allwch roi enghraifft lle byddai rheolaeth hyblyg yn fantais?**
- 3.51 Cafwyd ymateb cymysg ynghylch a oedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion i reoli pysgod cregyn mewn ffordd hyblyg. Dywedodd un ymatebydd nad yw pysgodfeydd pysgod cregyn a dyframaethu pysgod cregyn yr un fath, felly ni ellir eu rheoli yn yr un modd.
- 3.52 O ran pysgodfeydd pysgod cregyn, mae'r cymdeithasau pysgota yn dadlau dros fonitro amser real, ynghyd â rheolaeth hyblyg ac addasol o stociau pysgod cregyn sy'n rhychwantu'r ffin 12mf, a fyddai'n darparu rheoleiddio mwy cyson ac effeithiol.
- 3.53 O safbwynt dyframaethu, nid oedd rhai o'r ymatebwyr o blaid disodli Deddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967. Ond roedd eraill yn teimlo bod y broses yn rhy hir ac ansicr. Yn aml, caiff Gorchmynion Pysgodfa Unigol eu gohirio oherwydd adnoddau Llywodraeth Cymru, ond y farn o hyd oedd mai dyma'r dull priodol o drwyddedu dyframaethu, a byddai angen adolygu unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth yn drylwyr.

- 3.54 Gofynnodd cwestiwn 12: **A ydych yn cytuno â'n cynigion i gyflwyno trefn reoli newydd ar gyfer dyframaethu?**
- 3.55 O'r 34 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd tri yn anghytuno â'r cynigion hyn, a dywedodd 14 arall nad oeddent yn gwybod a oeddent yn cytuno ai peidio, naill ai heb roi rheswm neu gan ddweud na ddarparwyd digon o wybodaeth i wybod a oeddent yn cytuno ai peidio.
- 3.56 Dywedodd un ymatebydd eu bod yn cefnogi rhai o'r cynigion ond nid rhai eraill. Nid oeddent yn cefnogi disodli Deddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967, ond byddent yn cefnogi cynigion i ddatblygu cyfundrefn drwyddedu newydd ar gyfer systemau rhaff ar y môr y tu allan i'r ardal 0-6mf. Yn ogystal, byddent yn cefnogi cynigion i wella'r drefn reoli ar gyfer dyframaethu pysgod asgellog ar y môr a byddent yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu arallgyfeirio.
- 3.57 Gofynnodd cwestiwn 13: **a) Sut y gallai Cymru gynhyrchu mwy ym maes dyframaethu? b) Pa rôl sydd gan fusnesau Cymru a Llywodraeth Cymru i'w chwarae yn y broses hon?**
- 3.58 Dywedodd un ymatebydd fod angen bod yn uchelgeisiol a meddwl yn fawr er mwyn sicrhau hyfywedd economaidd realistig. Dywedon nhw hefyd, er bod cynhyrchwyr bach yn rhan bwysig o'r diwydiant, fod angen sicrhau lefel gynhyrchu gritigol i greu cyflogaeth sylweddol a gwireddu datblygiad busnesau prosesu a busnesau eraill sy'n ychwanegu gwerth.
- 3.59 Dywedodd ymatebydd arall mai rôl busnes oedd nodi cyfleoedd a rôl Llywodraeth Cymru oedd hwyluso datblygu cyfleoedd newydd a diogelu cyfleoedd presennol.
- 3.60 Roedd un ymatebydd yn teimlo hefyd, er bod Llywodraeth Cymru wedi hyrwyddo datblygiad dyframaethu mewn strategaethau diweddar, ei bod hefyd wedi rhwystro datblygiad y diwydiant yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gan ddyfynnu ei gyfrifoldebau amgylcheddol fel cyfiawnhad. I'r perwyl hwn, dywedodd yr ymatebydd hefyd fod angen gwell ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a'r diwydiant.
- 3.61 Dywedodd un ymatebydd ei bod hi'n ymddangos bod cyfundrefn reoli newydd ar gyfer dyframaethu yn canolbwyntio ar bysgod cregyn yn bennaf, ac mae angen rhoi ystyriaeth hefyd i ddatblygu pysgod asgellog ac i ddyframaethu sy'n seiliedig ar dechnoleg a systemau tir ar gyfer pysgod asgellog.

Masnach: Cwestiynau 14 – 16

- 3.62 Yn yr adran hon, roedd llawer o'r ymatebion i'r cwestiynau wedi'u cynnwys ar draws yr adran gyfan, felly mae'r pwyntiau bwled isod yn ymdrin â'r ymatebion i gwestiynau 14 – 16 gyda'i gilydd.
- 3.63 Gofynnodd cwestiwn 14: **Sut y gellid annog cynhyrchwyr i ddatblygu'r farchnad yn y dyfodol e.e. marchnadoedd newydd a chynhyrchion newydd?**
- 3.64 Gofynnodd cwestiwn 15: **Sut y gallai cynhyrchwyr yng Nghymru ennyn mwy o ddiddordeb yng nghynnyrch bwyd môr Cymru ymhlith defnyddwyr yn y DU? A oes gan Lywodraeth Cymru ran i'w chwarae yn hyn o beth?**
- 3.65 Gofynnodd Cwestiwn 16: **A ellid ehangu marchnadoedd newydd ar gyfer bwyd môr Cymru y tu allan i'r UE? Os felly, ble a sut?**
- 3.66 Mewn amryw o'r ymatebion, nid yn unig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, dywedodd llawer o'r ymatebwyr fod angen cynyddu'r farchnad ddomestig ar gyfer ein pysgod domestig. Soniodd llawer o'r ymatebion am hyrwyddo bwyd môr Cymru i'r cyhoedd ac i fwytai, ynghyd â rhoi pysgod Cymru ar fwydlenni ysgolion. Roedd rhai o'r farn bod bwyd môr domestig megis cregyn gleision, cregyn bylchog a chregyn moch yn apelio mwy at ddefnyddwyr trwy ddefnyddio llysgenhadon, cogyddion a blogwyr i hyrwyddo bwyd môr Cymru.
- 3.67 Ochr yn ochr â'r pwynt a wnaed yn 3.66, dywedodd ymatebydd arall fod y DU yn mewnfurio cimychiaid Canada ar hyn o bryd ac yn allforio ein cimychiaid brodorol ein hunain, a dadleuodd y dylai polisi ac ymchwil Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â hyn fel y gellir cefnogi marchnadoedd domestig i werthu cimychiaid a ddalir yn y DU.
- 3.68 Roedd llawer yn ystyried bod brand bwyd môr Cymru yn hollbwysig, gan gynnwys y cysylltiad â'r gwaith ar werthoedd brand cynaliadwy sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd.
- 3.69 Mewn ymateb i gwestiwn gwahanol, dywedodd un ymatebydd fod cychod yr UE yn dal pysgod megis tiwna oddi ar arfordir Cymru yn rheolaidd o ganlyniad i'r ffaith bod y moroedd yn cynhesu. Nid oes gan y DU gwota ar gyfer y rhywogaethau hyn i'w galluogi i gael eu dal, ac mae'n rhaid i hyn newid.
- 3.70 Roedd y cynhyrchion newydd a awgrymwyd yn cynnwys pysgod dwygragennog megis môr-gyllyll a chregyn bylchog a datblygu bwyd môr wedi'i brosesu ar gyfer marchnadoedd penodol.
- 3.71 Er bod yr ymatebwyr wedi dweud bod potensial i ehangu'r farchnad ddomestig a marchnad y DU ar gyfer pysgod asgellog, mae'n gallu bod yn anodd cadw cyflenwad parhaus. Mae hyn yn cael ei waethygu gan gysylltiadau trafniadaeth gwael â phorthladdoedd arfordirol anghysbell a manau glanio sy'n cyfyngu ar gyfleoedd. Gallai trefniadau cydweithredol wrth

ddal pysgod helpu hyn, er bod cyflenwadau'n cael eu cyfyngu gan gwota hefyd.

- 3.72 Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi digwyddiadau masnach i arddangos bwyd môr Cymru.
- 3.73 Roedd llawer yn gweld y Dwyrain Pell fel marchnad newydd bosibl gan fod cryn dipyn o fwyd môr Cymru eisoes yn cael ei allforio i Tsieina a De Korea.
- 3.74 Roedd eraill o blaid arallgyfeirio marchnadoedd presennol, yn hytrach na datblygu marchnadoedd newydd.
- 3.75 Nododd sefydliadau amgylcheddol ac eraill nad yw llawer o stociau allweddol Cymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy hyd yma.

Twf ac arloesi: Cwestiynau 17 – 19

- 3.76 Gofynnodd Cwestiwn 17: **Pa rôl y gallai Llywodraeth Cymru ac eraill ei chwarae i alluogi'r diwydiant i ehangu gweithgareddau prosesu a gweithgareddau economaidd eraill? Sut y dylid cynnwys cymunedau arfordirol wrth fynd ati i ddatblygu cyfleoedd newydd?**
- 3.77 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion sylweddol yn teimlo bod gan Lywodraeth Cymru gyfraniad i'w wneud o ran galluogi'r diwydiant i ehangu. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys cefnogi'r diwydiant trwy gynlluniau ariannu i ddisodli Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF), mynychu digwyddiadau masnach i hyrwyddo bwyd môr Cymru, datblygu seilwaith a marchnadoedd domestig a sicrhau bod cytundebau masnach ar waith gyda marchnadoedd allforio.
- 3.78 Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn feirniadol o gefnogaeth Llywodraeth Cymru i ehangu'r diwydiant yn y gorffennol. Yn benodol, nodwyd bod dulliau rheoli EMFF yn rhy gymhleth a thrwsgl ac yn rhy fiwrocraidd i ymateb yn gyflym i weithredu arloesol gan y diwydiant.
- 3.79 Roedd rhai ymatebwyr hefyd o'r farn na ddylai twf fod yn flaenoriaeth a bod dull gweithredu sy'n seiliedig ar ecosystemau yn briodol.
- 3.80 Gofynnodd Cwestiwn 18: **Sut y gellid gwella'r berthynas rhwng y byd academiaidd a'r diwydiant?**
- 3.81 Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod gan y diwydiant berthynas waith dda gyda sefydliadau academiaidd yn barod, gyda chydweithio eisoes yn digwydd ar asesiadau stoc, asesu effeithiau amgylcheddol pysgota a monitro iechyd ein moroedd. Cyfeirir at y Ganolfan Pysgod Cregyn yn y Ganolfan Gwyddorau Môr Cymhwysol fel enghraifft dda o hyn.
- 3.82 Mae syniadau ar gyfer gwelliannau yn cynnwys mwy o gyfathrebu rhwng sefydliadau academiaidd a'r fflyd leol. Yn ogystal, awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru neilltuo gwaith gwyddonol i Brifysgolion Cymru yn hytrach

na chyrrff gwyddonol sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru. Awgrymwyd hefyd y dylid sefydlu canolfan ymchwil morol i gynnal yr holl ymchwil morol yng Nghymru.

- 3.83 Gofynnodd Cwestiwn 19: **Pa gyfleoedd sydd ar gael i dyfu busnesau pysgota yng Nghymru drwy ymgymryd â gweithgareddau eraill e.e. twristiaeth, darparu gwasanaethau ar gyfer diwydiannau morol a'r Llywodraeth?**
- 3.84 Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo, gyda physgodfeydd wedi'u rheoli'n dda, y byddai'r diwydiant yn fwy proffidiol ac na fyddai angen iddo arallgyfeirio.
- 3.85 Fodd bynnag, roedd y cymdeithasau pysgota o'r farn bod cyfleoedd i gael, gan gynnwys defnyddio cychod ar gyfer adroddiadau morol megis cyflwr cynefinoedd ac ymlediad rhywogaethau estron goresgynnol. Roedd twristiaeth yn gyfle arall ac mae llawer o bysgotwyr Cymru eisoes yn siarтеру eu cychod ar gyfer teithiau pysgota a bywyd gwyllt. Dywedon nhw hefyd eu bod yn cynorthwyo diwydiannau morol eraill megis sector ynni adnewyddadwy'r môr.

Cynaliadwyedd y Ffilyd: Cwestiynau 20 – 22

- 3.86 Gofynnodd cwestiwn 20: **Sut y gellid cynnal a gwella ffilyd Cymru?**
- 3.87 Cafwyd 35 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd cymdeithasau pysgota yn cytuno bod maint yr elw yn isel, bod y gweithlu'n heneiddio a bod y broses o recriwtio i ddiwydiant pysgota Cymru yn araf.
- 3.88 Dadleuodd Cyngor Sir Penfro dros wneud y diwydiant yn fwy proffidiol a deniadol i newydd-ddyfodiaid trwy reoli physgodfeydd yn hyblyg yn ystod y flwyddyn, gan ganiatáu manteisio ar bysgodfeydd y gaeaf tra bod physgodfeydd pysgod cregyn ar gau yn dymhorol. Byddai hyn yn caniatáu cyflogaeth gydol y flwyddyn a fyddai'n denu newydd-ddyfodiaid.
- 3.89 Roedd sawl ymatebydd o'r farn nad yw rheolwyr Llywodraeth Cymru wedi caniatáu i bysgotwyr fanteisio'n ddigonol ar stociau, ac maent yn argymhell y dylai hyn newid gan na fydd newydd-ddyfodiaid yn ymuno â'r sector.
- 3.90 Roedd canolbwyntio ar gynaliadwyedd yn hytrach na thwf ynddo'i hun yn thema sy'n dod i'r amlwg. Nododd sefydliadau amgylcheddol ac ymatebwyr eraill fod hyfywedd tymor hir y diwydiant yn dibynnu ar gynaliadwyedd tymor hir stociau pysgota. Nodwyd pwysigrwydd pysgota cynaliadwy wedi'i lywio gan yr MSY. Roedd un ymatebydd yn argymhell cynyddu'r maint cyfeirio cadwraethol lleiaf (MCRS) ar gyfer cregyn moch i 75 neu hyd yn oed 80mm.
- 3.91 Roedd rhai ymatebwyr yn argymhell arallgyfeirio a hyd yn oed, yn y tymor hir, trosi'r ffilyd yn llwyr i ddefnyddiau eraill.

- 3.92 Gofynnodd Cwestiwn 21: **Sut y gallai'r diwydiant pysgota, busnesau dyframaethu a chymunedau arfordirol sbarduno cyfleoedd i dyfu mewn ffordd gynaliadwy drwy fanteisio ar ein hadnoddau morol naturiol?**
- 3.93 Roedd sawl ymatebydd, gan gynnwys cymdeithasau pysgota a sefydliadau amgylcheddol, o'r farn mai'r ffordd orau o sicrhau twf cynaliadwy fyddai trwy reoli pysgodfeydd i lefelau nad ydynt yn rhagori ar yr MSY gan fod cyfleoedd ar gyfer twf cynaliadwy yn dibynnu ar adferiad a chynnal a chadw'r amgylchedd morol. Cafodd yr WMNP ei nodi hefyd fel offeryn allweddol ar gyfer datblygu cynaliadwy.
- 3.94 Roedd eraill o blaid rhoi pwyslais ar ddyframaethu. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys integreiddio cwmnïau cydweithredol pysgodfeydd arfordirol â dyframaethu masnachol, arallgyfeirio i ddyframaethu a gwneud Cymru yn ganolfan ar gyfer hyfforddi a chynhyrchu dyframaethu. Dywedodd rhai bod y gweithdrefnau deddfwriaethol ar gyfer cydsyniadau dyframaethu yn rhwystyr ar hyn o bryd.
- 3.95 Dadleuodd rhai ymatebwyr nad yw twf yn nod defnyddiol ac y dylid rhoi blaenoriaeth i gynaliadwyedd.
- 3.96 Gofynnodd Cwestiwn 22: **Beth y gellid ei wneud i ddenu newydd-ddyfodiaid i'r diwydiannau morol a physgota yng Nghymru?**
- 3.97 Teimlwyd bod proffidioldeb yn allweddol i ddenu newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant.
- 3.98 Awgrymwyd hefyd y dylid rhoi cymorth i newydd-ddyfodiaid gyda hyfforddiant ac i brynu cychod a thrwyddedau.

Tystiolaeth: Cwestiynau 23 – 26

- 3.99 Gofynnodd cwestiwn 23: **Pa faterion sy'n wynebu'r amgylchedd morol y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt wrth fynd ati i wneud gwaith ymchwil?**
- 3.100 Ansawdd dŵr a llygredd oedd y flaenoriaeth i lawer o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd y dŵr ffo o ffermydd ac ardaloedd trefol yn peri pryder arbennig.
- 3.101 Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cynnwys rhywogaethau estron goresgynol fel mater i ymchwilio iddo. Awgrymwyd hefyd fod effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, er enghraifft, ei effaith ar stociau pysgod, adar môr megis gwylanod coesddu a chynefinoedd eraill, yn feysydd allweddol i ymchwilio iddynt.
- 3.102 Gofynnodd cwestiwn 24: **Pa rywogaethau a stociau pysgodfeydd y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt wrth fynd ati i wneud gwaith ymchwil?**
- 3.103 Awgrymodd y cymdeithasau pysgota y dylid rhoi blaenoriaeth i stociau sy'n ddiffygiol o ran data, y rhai y tybir eu bod mewn perygl o gael eu camfanteisio

a'r rhai y tybir eu bod mewn cyflwr gwael. Dywedodd y rhain a rhai ymatebwyr eraill y dylid rhoi blaenoriaeth i'r rhai â'r pwysigrwydd masnachol mwyaf.

- 3.104 Cyflwynwyd nifer fawr o rywogaethau fel rhai yr oedd angen ymchwilio iddynt. Roedd un ymatebydd o'r farn bod y cranc brown yn rhywogaeth yr oedd angen canolbwyntio arni ar frys. Roedd yr awgrymiadau eraill yn cynnwys môr-gyllyll, corgimychiaid, cimychiaid a draenogiaid y môr.
- 3.105 Gofynnodd cwestiwn 25: **Pa ffactorau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol allweddol y dylid eu hystyried wrth wneud y gwaith ymchwil hwn?**
- 3.106 Cafwyd 34 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac roedd yr ymatebion yn amrywiol. Roedd y ffactorau a restrwyd yn cynnwys sut mae cymunedau lleol yn elwa a sut y gallent elwa ymhellach ar bysgota, ynghyd â ffactorau megis genweirio hamdden a phwysigrwydd yr amgylchedd morol ar gyfer iechyd a llesiant.
- 3.107 Gofynnodd cwestiwn 26: **Sut y gellir mynd ati i sicrhau bod prosiectau ym maes gwyddorau pysgodfeydd gan y sector cyhoeddus, y byd academaidd, ac eraill, yn rhai penodol a chydgyssylltiedig er mwyn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i ddatblygu a gwerthuso polisïau a dulliau rheoli sy'n ymwneud â'r môr a physgodfeydd?**
- 3.108 Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gymysg unwaith eto, heb unrhyw gonsensws cyffredinol. Mae'r Cymdeithasau Pysgota yn nodi y byddai canolfan wyddonol yn helpu i ddod ag ymchwil ynghyd mewn un lleoliad, gan wella cyfathrebu rhwng ymchwilwyr. Roeddent hefyd yn croesawu a chefnogi parhad gweithgorau Llywodraeth Cymru megis y Grŵp Gweithredu ar gyfer Môr a Physgodfeydd Cymru sy'n dod â'r holl grwpiau buddiant ynghyd.

Cyllid a Chymorth: Cwestiynau 27 – 29

- 3.109 Mae adran olaf yr ymgynghoriad yn ystyried cyllid o fewn sector pysgodfeydd Cymru. Ar ôl Brexit, bydd cyfleoedd ariannu o'r UE, megis Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF), yn dod i ben yn y pen draw, ac roedd y cwestiynau a gododd o'r adran hon yn gofyn i'r ymatebwyr ystyried sut y dylid ariannu'r sector yn y dyfodol.
- 3.110 Gofynnodd cwestiwn 27: **Sut y dylid mynd ati yn y dyfodol i dargedu unrhyw raglen a fydd yn olynu'r EMFF a rhaglenni eraill a gyllidir gan yr UE, ac ar ba sail y dylid gwneud hynny?**
- 3.111 Cafwyd 35 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Gwnaeth yr ymatebwyr ystod eang o awgrymiadau ar gyfer targedu rhaglenni ariannu yn y dyfodol, gan glystyru o amgylch sawl thema, gan gynnwys: sicrhau bod unrhyw gynllun yn y dyfodol yn gwella ar ddiffygion canfyddedig EMFF (gan gynnwys mynediad at gyllid, hyblygrwydd a diffyg tegwch ledled y DU); yr angen i gadw mentrau amgylcheddol EMFF; gwelliannau i'r fflyd; cymorth i bysgotwyr; yr angen i gadw deddfwriaeth wrth wraidd unrhyw gyllid, yn enwedig Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru);

ymchwil i ddulliau pysgota cynaliadwy a physgodfeydd newydd; a hwyluso masnach.

- 3.112 Tynnodd ymatebwyr eraill sylw at hwyluso ymchwil, cydweithredu â'r byd academaidd a rhoi sail i fentrau amgylcheddol o dan EMFF, ac annog parhau â'r agwedd hon ar ariannu ar ôl i EMFF ddod i ben.
- 3.113 Awgrymodd sawl ymatebydd y dylid targedu cyllid at wella fflyd bysgota Cymru. Roedd awgrymiadau penodol yn cynnwys moderneiddio llongau, datblygu offer a dulliau arloesol, cyllid ar gyfer gwell diogelwch ar longau, gwelliannau o ran effeithlonrwydd tanwydd a gwella ansawdd y broses o storio dalfeydd ar longau.
- 3.114 Thema arall a ddaeth i'r amlwg oedd y dylid defnyddio cyllid i gefnogi pysgotwyr Cymru yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Cafodd cyllid ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant pysgota, cyllid ar gyfer hyfforddiant, cyllid i helpu pysgotwyr i addasu i newid deddfwriaethol, a chyllid i helpu gydag arallgyfeirio i weithgareddau morol eraill megis twristiaeth neu gynhyrchu ynni, eu hawgrymu fel blaenoriaethau gan sawl ymatebydd.
- 3.115 Roedd yr ymatebion a bwysleisiodd bwysigrwydd cysoni cynlluniau ariannu newydd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn hyrwyddo dull cyfannol o reoli'r Môr a Physgodfeydd, ac mae'r cyllid hwnnw yn cefnogi hyn ac nid yw'n annog gweithio mewn seilo; sicrhau cyllid ar gyfer cynlluniau gweithredu Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn y dyfodol; a'r angen i gynaliadwyedd fod yn rhan annatod o brosiectau a ariennir. Tynnwyd sylw at yr angen i flaenoriaethu prosiectau sy'n gweithio tuag at Statws Amgylcheddol Da (GES).
- 3.116 Nododd un ymatebydd bwysigrwydd disodli'r cynllun EU LIFE (offeryn ariannol yr UE sy'n cefnogi prosiectau amgylcheddol a chadwraeth natur, sydd â chynlluniau megis gwaith pwysig yn y Moelrhoniaid gyda môr-wenoliaid gwridog) ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.
- 3.117 Thema arall oedd pwyslais ar wella cyfleusterau ar y tir a dileu rhwystrau i fasnach. Roedd awgrymiadau'n cynnwys targedu cyllid ar gyfer gwella storfeydd ym mhorthladdoedd Cymru, ar gyfer cyfleusterau prosesu yng Nghymru ac ar gyfer gwella llwybrau trafnidiaeth i farchnadoedd. Cafwyd awgrymiadau hefyd ar gyfer targedu cyllid i wella brandio, addysg a hyrwyddo bwyd môr Cymru.
- 3.118 Dadleuodd sawl ymatebydd o grwpiau amgylcheddol a'r diwydiant pysgota y dylai cymorthdaliadau i'r diwydiant gael eu lleihau dros amser, gyda'r nod o alluogi hyfywedd economaidd yn y tymor hwy. Yn y cyfamser, dylid targedu cyllid at gymell arferion sy'n diogelu bioamrywiaeth. Dylai cymorthdaliadau ar gyfer arferion sy'n niweidiol i fioamrywiaeth gael eu diddymu'n raddol.
- 3.119 Gofynnodd cwestiwn 28: **A ddylai Llywodraeth Cymru ystyried rhoi'r gorau i gynnig cymorth ar gyfer unrhyw un neu rai o'r gweithgareddau morol neu weithgareddau pysgodfeydd presennol, a pham y dylai wneud hynny?**

- 3.120 Cafwyd 36 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.
- 3.121 Atebodd pedwar ymatebydd 'Ddim yn gwybod' heb unrhyw sylwadau pellach, ac atebodd pedwar 'Na ddylai' heb unrhyw sylwadau pellach.
- 3.122 Atebodd deg ymatebydd 'Dylai'. Roedd pedwar o'r rhain yn argymhell y dylid terfynu unrhyw gyllid ar gyfer dulliau sy'n amgylcheddol niweidiol megis rhwydi drysu ar y glannau, treillrwydi drawst a chloddio am gregyn bylchog. Roedd dau yn dadlau y dylid rhoi'r gorau i gymorthdaliadau ar gyfer y diwydiant pysgota yn gyfan gwbl o blaid cefnogi, datblygu a hyrwyddo genweirio môr, gyda phwyslais ar ddal a rhyddhau. Roedd y pedwar ateb 'Dylai' sy'n weddill yn nodi pryderon ynghylch hyfywedd amgylcheddol, moesegol neu economaidd.
- 3.123 Daeth amryw o themâu i'r amlwg o'r ymatebion a ddadleuodd na ddylid rhoi'r gorau i ariannu. Tynnodd sawl ymateb sylw at bwysigrwydd glynu at rwymedigaethau cyfreithiol, yn enwedig yr ymrwymadau datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a gofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr (UNCLOS), a dadleuon nhw y bydd gofynion adnoddau o ddeddfwriaeth o'r fath yn cynyddu yn hytrach na lleihau. Cyflwynwyd prosiectau yn ymwneud â llygredd tir, y newid yn yr hinsawdd a sbwriel môr, y difrod a wnaed gan dreillio am gregyn bylchog a'r effeithiau cronol ar fywyd gwylt yn sgil cynhyrchu ynni'r gwynt a'r llanw fel opsiynau addas i'w hariannu yn y dyfodol.
- 3.124 Awgrymodd un ymatebydd y dylid defnyddio cyllid ar gyfer gwasanaeth sy'n casglu pysgod o'r Gogledd ac yn ei gludo i'r marchnadoedd yn y De.
- 3.125 Roedd sawl ymatebydd, er nad oeddent o reidrwydd yn dadlau y dylid dod â'r cyllid i ben ar ôl EMFF, yn teimlo rhwystredigaeth gyda rheolaeth cyllid y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Dadleuodd un y dylid datblygu strwythur newydd i reoli datblygiad cynaliadwy sectorau'r Môr a Physgodfeydd Cymru, i'w reoli hyd braich o Lywodraeth Cymru ac i gynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant, y byd academiaidd a'r trydydd sector, tra bod un arall yn argymhell gwelliannau sylweddol yn y ffordd mae Llywodraeth Cymru yn integreiddio â sectorau allweddol, gan nodi bod rhai prosiectau a ariennir gan yr UE ar hyn o bryd yn gwastraffu arian cyhoeddus ac nad oes ganddynt unrhyw botensial i greu swyddi yng Nghymru.
- 3.126 Gofynnodd cwestiwn 29: **Pa gyfleoedd sydd ar gael i sicrhau rhagor o fuddsoddiad yn y sector pysgota a'r sector morol?**
- 3.127 Cafwyd 29 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.
- 3.128 Y diwydiant mwyaf cyffredin y nodwyd ei fod yn debygol o ddenu buddsoddiad oedd ynni adnewyddadwy'r môr. Roedd dyframaethu yn ateb poblogaidd hefyd, yn ogystal ag arallgyfeirio, er bod yr ymatebwyr yn pwysleisio'r anawsterau sy'n gysylltiedig â chyfarparu cychod pysgota i ddarparu gwasanaethau eraill.

- 3.129 Awgrymwyd y dylai sector ynni adnewyddadwy'r môr fod yn fewnfuddsoddwr hefyd i gefnogi cydfodolaeth ynni adnewyddadwy'r môr a physgota masnachol.
- 3.130 Dehonglodd dau ymatebydd y cwestiwn hwn fel un yn ymwneud â buddsoddiad o gronfeydd y llywodraeth, gan ddadlau na ddylid defnyddio arian cyhoeddus i fuddsoddi mewn pysgodfeydd am resymau amgylcheddol a moesegol. Ychwanegodd un arall nad oes diben buddsoddi yn y diwydiant pysgota os nad yw cadwraeth yn cael ei hystyried o ddifrif.
- 3.131 Roedd sawl ymateb yn dadlau os yw bwyd môr tymhorol, cynaliadwy Cymru yn cael ei hyrwyddo'n dda y bydd hyn, yn ei dro, yn hyrwyddo buddsoddiad.
- 3.132 Roedd un ymateb yn dadlau y byddai gwahardd rhwydi ar y glannau er mwyn gwella genweirio môr salmonidau yn denu buddsoddiad.
- 3.133 Awgrymwyd y dylid pysgota mwy, neu newid y system gwota fel bod modd dosbarthu cwotâu yn ôl angen a stociau cymunedol, fel ffordd o ysgogi buddsoddiad.
- 3.134 Awgrymodd un ymatebydd y dylid defnyddio buddsoddiad i gefnogi agor cyfleusterau prosesu er mwyn i ddiwydiant pysgota Cymru allu prosesu eu dalfeydd eu hunain.
- 3.135 Roedd un ymateb yn dadlau os bydd Llywodraeth Cymru yn ymladd i ehangu diwydiant pysgota Cymru y byddai refeniw treth o bysgodfeydd yn cynyddu hefyd, ac y gellid defnyddio hyn ar gyfer ariannu a buddsoddi. Awgrymodd un arall y dylid sefydlu cronfa ganolog a fyddai'n gweithredu fel banc a fyddai'n benthyca arian i ymgeiswyr ar log, ac y byddai'r llog yn datblygu cronfa ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ymatebion Rhydd

- 3.136 Cafwyd pedwar ymateb rhydd na chyflwynwyd trwy'r ffurflen ymgynghori. Roedd y rhain gan Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffordd, Morwrol a Thrafnidiaeth (RMT), Cymdeithas Porthladdoedd Prydain, Cyngor Sir Ynys Môn ac unigolyn preifat yn cynrychioli buddiannau genweirio môr. Yn ogystal, roedd sawl ymateb yn cynnwys ymateb cyffredinol yn ogystal â'r ffurflen wedi'i chwblhau. Ar wahân i RMT a Chymdeithas Porthladdoedd Prydain, deilliodd themâu tebyg o'r ymatebion rhydd ag a ddeilliodd o'r ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad.
- 3.137 Roedd ymateb RMT yn pwysleisio statws hunangyflogedig pysgotwyr Cymru ac yn argymhell y dylid pennu polisiau'r môr a physgodfeydd Llywodraeth Cymru yn y cyd-destun hwn ac er mwyn i ymgyrch *Save Our Seafarers 2020* gael ei hymgorffori yn y polisi i amddiffyn morwyr Cymru rhag dadreoleiddio niweidiol.

3.138 Ni chyflwynodd Cymdeithas Porthladdoedd Prydain ymateb penodol i Gymru; yn hytrach, cyflwynodd ei adroddiad diweddar, *A New Deal for UK Fishing Ports* (Awst 2019), i'w ystyried.

4 Cyfarfodydd ymgynghori â Rhanddeiliaid

4.1 Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori â rhanddeiliaid yn y diwydiant ym Mhorth Tywyn, Caernarfon, Aberystwyth, Aberdaugleddau a Phwllheli. Roedd y nifer a ddaeth i'r cyfarfodydd hyn yn siomedig o isel, gyda dim ond 10 o bobl yn bresennol i gyd. Roedd y cyfnod ymgynghori'n cyd-daro â chyfnod hir o dywydd ac amseroedd llanw sefydlog, a oedd yn golygu bod llawer o bysgotwyr allan ar y môr. Gyda niferoedd mor isel, roedd modd cael trafodaethau manwl gyda'r rhai a oedd yn bresennol. Mae'r prif bwyntiau wedi'u cynnwys ym mhrif adran yr adroddiad, ond fe'u crynhoir isod hefyd:

- Roedd cynaliadwyedd môr Cymru yn bwysig iawn gan nad oedd diben gorbysgota fel na fyddai stoc i'w ddal y flwyddyn nesaf.
- Gellid defnyddio cwotâu i ysgogi buddsoddiad yn y diwydiant yng Nghymru. Gellid caniatáu i gychod yr UE bysgota yn nyfroedd Cymru am bris y gellid ei ail-fuddsoddi yn seilwaith Cymru.
- Mae angen mwy o addysg mewn ysgolion i addysgu plant sut i goginio pysgod a manteision bwyta pysgod i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o ddefnyddwyr.
- Mae angen gwneud mwy i wneud y diwydiant yn fwy deniadol i newydd-ddyfodiaid a datblygu sgiliau'r diwydiant presennol er mwyn gallu cael mynediad at bysgodfeydd newydd.
- Mae'r ffocws ar dwristiaeth yn golygu bod llawer o harbwr yn cael eu troi'n marinas, sy'n rhy ddrud i'r rhan fwyaf o bysgotwyr.
- Ar hyn o bryd mae'r logisteg ar gyfer bwyd môr yn rhy gymhleth. Mae pysgod o Gymru yn mynd i Plymouth neu ymlaen i Billingsgate ac yna yn ôl i fwytai lleol mewn fan oer. Dylai pysgotwyr allu gwerthu oddi ar y cychod yn syth i fwytai lleol.
- Mae proses ymgeisio EMFF yn rhy gymhleth.

4.2 Yng Nghaerdydd, cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori rhwng cynrychiolwyr aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru a Llywodraeth Cymru. Roedd wyth cynrychiolydd Cyswllt Amgylchedd Cymru yn cynrychioli pedwar eNGO: MSC, yr RSPB, Client Earth a Cyswllt Amgylchedd Cymru. Roedd y materion a godwyd yn y cyfarfod yn adleisio'r materion a amlygwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, fel y dangosir isod:

- Gweithio mewn seilo: roedd cynrychiolwyr Cyswllt Amgylchedd Cymru yn feirniadol o'r ddogfen ymgynghori am ganolbwyntio ar bysgodfeydd, ac roeddent yn hyrwyddo dull cyfannol o ymdrin â'r môr a physgodfeydd yn hytrach nag edrych ar yr ardaloedd hyn ar eu pennau

eu hunain. Mynegwyd pryder hefyd nad oedd sectorau eraill, megis porthladdoedd, yn cael sylw.

- Mae'n ymddangos bod gwaith ar Brexit wedi peri i waith pwysig arall gael ei ohirio. Pwysleision nhw bwysigrwydd parhau i weithio tuag at GES, er gwaethaf Brexit a beth bynnag fo canlyniad Brexit.
- Mae'n ymddangos bod agwedd Llywodraeth Cymru at y Môr a Physgodfeydd yn wahanol iawn i'w hagwedd at reoli tir, sy'n gweithredu ar sail ecosystem ac sy'n ymrwymo'n gryf i ddeddfwriaeth amgylcheddol, ac mae'n ystyried bod rheolaeth yn adferol, yn hytrach na dim ond yn gamfanteisiol.
- Mae angen i ymagweddau polisi y Môr a Physgodfeydd fod yn fwy integredig ac ystyried yr amgylchedd ehangach, ac ni ddylid gohirio hyn gan fod y newid yn yr hinsawdd yn gloc sy'n tician, ac mae materion amgylcheddol yn mynd i dyfu a gofyn am fwy o weithredu brys. Mae angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â hyn ym maes polisi a rheoli morol.
- Mae pryderon na all y DU blismona ei dyfroedd, ac nad yw plismona cadwraeth morol wedi'i wreiddio yn rhan o hyfforddiant cychwynnol staff rheoli a gorfodi Llywodraeth Cymru.
- Diffyg tryloywder: mae angen i randdeiliaid gael eu hysbysu'n fwy effeithiol o lawer am ddyfarniadau cyllid ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchoddedig.
- Mae cynnwys rhanddeiliaid yn hanfodol bwysig a dylai Llywodraeth Cymru ystyried sefydlu gweithgorau newydd ar gyfer rhanddeiliaid.
- Dylai Llywodraeth Cymru bwysu ar i frand Cymru farchnata pysgod cynaliadwy Cymru mewn ysgolion fel bod cynaliadwyedd a negeseua lleol yn dod yn gynhenid i bobl ifanc.

Atodiad A – Rhestr o'r Sefydliadau a Ymatebodd

Nid yw'r rhestr yn cynnwys pum sefydliad a ofynnodd am gael aros yn ddiennw.

Cymdeithas Ecolegol Prydain

Cymdeithas Porthladdoedd Prydain

Bwyd o'r Môr / Pwlheli Seafoods Ltd

Cardigan and Pembrokeshire Fish Producers Ltd

Câr-Y-Môr - For the love of the sea - Cymdeithas Budd Cymunedol

Ystâd y Goron

Cyngor Sir Ynys Môn

Deepdock Ltd

Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt

Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn

Cymdeithas Pysgotwyr Cewyll Llŷn

Y Gymdeithas Cadwraeth Forol

Cymdeithas Rheoli Gorchymyn Pysgodfa Afon Menai

Cyfoeth Naturiol Cymru

Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffordd, Morwrol a Thrafnidiaeth (RMT)

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Cyngor Sir Penfro

PLANED

Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)

Fforwm Gwymon Cymru

Cymunedau Pysgota De a Gorllewin Cymru (SWWFC)

Cyswllt Amgylchedd Cymru

Ffederasiwn Genweirwyr Môr Cymru a Genweirio Cymru

Cymdeithas Pysgotwyr Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Ymddiriedolaethau Natur Cymru

Wonkey fishing trawlers Swansea

Atodiad B: Crynodeb Manwl o'r Ymatebion

Yr Amgylchedd Morol: Cwestiynau 1, 2 a 3

- b.i Cafwyd 43 o ymatebion i gwestiwn 1, 43 i gwestiwn 2 a 43 i gwestiwn 3.
- b.ii Roedd yr ymatebion yn cynnwys amrywiaeth o argymhellion a sylwadau, sydd wedi'u grwpio i'r prif themâu canlynol nad ydynt yn hollgynhwysol:
- b.iii Yr Amgylchedd a Bioamrywiaeth
- Sicrhau bod pysgodfeydd yn cael eu gweinyddu mewn ymateb i gyflwr stociau pysgod; bod pysgota'n cael ei wneud mewn ffordd gynaliadwy.
 - Cefnogi ymrwymadau'r WNMP.
 - Creu parthau dim cymryd – bydd hyn yn helpu gyda stociau ac yn cefnogi adar y môr sydd o dan fygythiad yn fyd-eang ac yn genedlaethol.
- b.iv Gwaith Seilo gan Lywodraeth Cymru
- Beirniadwyd y ddogfen ymgynghori gan grwpiau amgylcheddol am ganolbwyntio ar bysgodfeydd ar wahân yn hytrach na mynd i'r afael â'r amgylchedd morol, gan gynnwys pysgodfeydd, mewn ffordd gyfannol.
 - Roedd y diffyg adnoddau ar gyfer Cangen Forol Llywodraeth Cymru yn bryder a nodwyd gan sawl un o'r sefydliadau amgylcheddol.
 - Pwysigrwydd cynnwys rhanddeiliaid.
 - Roedd sawl ymateb yn argymhell dulliau cydweithredol o reoli'r amgylchedd a monitro moroedd Cymru.
 - Bydd angen mewnbwn eang gan randdeiliaid i gyflawni a chynnal Statws Amgylcheddol Da (GES).
 - Dylid cynnal adolygiadau o gamau gweithredu rhanddeiliaid fforwm agored mewn perthynas â chynlluniau rheoli Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) morol presennol er mwyn llywio rheolaeth fwy cyffredinol.
- b.v Tystiolaeth a'r egwyddor ragofalus
- Dylai Rheoli Pysgodfeydd fod yn seiliedig ar dystiolaeth. Lle mae bylchau mewn tystiolaeth, dylid mabwysiadu dull rhagofalus hyd nes y bydd data ar gael.
- b.vi Deddfwriaeth
- Nododd llawer o ymatebwyr y dylai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 fod yn ganolog i holl bolisiau rheoli Môr a Physgodfeydd Cymru yn y dyfodol.
 - Roedd sefydliadau Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) o blaid cynnwys cynlluniau 'y llygrwr sy'n talu' a 'chywiro yn y tarddle' mewn deddfwriaeth sylfaenol.

- b.vii Gwarchod Dyfroedd Cymru
- Argymhellwyd y dylid atal cychod pysgota tramor rhag pysgota yn nyfroedd Prydain yn ymatebion sawl unigolyn, ynghyd ag atal cychod nad ydynt yn perthyn i'r DU rhag pysgota yn nyfroedd Cymru.
- b.viii Cymunedau Arfordirol
- Anogwyd Llywodraeth Cymru i gydnabod pwysigrwydd cymdeithasol ac economaidd pysgota i gymunedau yng Nghymru.
- b.ix Cefnogi'r diwydiannau pysgota a dyframaethu
- Anogwyd Llywodraeth Cymru i:
 - i. ymgysylltu â'r diwydiant mewn ffordd fwy agored, gonest a rhagweithiol ar lefel leol, cyflawni ei hymrwymiaidau a'i haddewidion a mynd ati i ymgysylltu ag adborth gan y diwydiant er mwyn datblygu ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid;
 - ii. Tyfu a chefnogi'r pysgodfeydd dwyragennog yng Nghymru, yn enwedig y pysgodfeydd cregyn gleision yn Afon Menai;
 - iii. Ailadeiladu seilwaith y diwydiant pysgota, cael gafael ar offer diogelwch morol o fewn y DU a chyflwyno prentisiaethau adeiladu cychod, cefnogi adeiladu cychod a thrwsio cychod, gwneud rhwydi a thrwsio net, cynhyrchu offer pysgota a denu pobl ifanc pobl i'r diwydiant
 - Roedd awgrymiadau eraill i gefnogi'r diwydiant yn cynnwys ymwrthod ag ymadael â'r UE yn gyfan gwbl, gan ddod â'r ddalfa fwyaf a ganiateir i ben a rhoi ceisiadau ar gyfer ardaloedd tyfu pysgod cregyn ar y llwybr carlam.
- b.x Genweirio
- Roedd yr ymatebion gan enweirwyr a sefydliadau genweirio yn dadlau mai'r ffordd orau o ddiogelu'r amgylchedd morol oedd trwy flaenoriaethu genweirio môr dros bysgota masnachol. Roeddent yn dadlau y byddai blaenoriaethu'r sector masnachol yn achosi i stociau ostwng, gan fod pysgota masnachol yn niweidiol iawn i'r amgylchedd morol ac yn achosi i arian gael ei golli o dwristiaeth enweirio. Maent yn dadlau hefyd y byddai hyrwyddo genweirio môr yn cefnogi cymunedau arfordirol.

Cynaliadwyedd a Rheoli Pysgodfeydd - Cwestiynau 4, 5 a 6

Cafwyd 44 o ymatebion i gwestiwn 4, 33 i gwestiwn 5 a 36 i gwestiwn 6.

- b.xii Roedd yr ymatebion yn cynnwys amrywiaeth o argymhellion a sylwadau, sydd wedi'u grwpio i'r prif themâu canlynol, nad ydynt yn hollgynhwysol:
- b.xiii Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
- Dylid gorfodi terfynau maint.
 - Gwahardd rhwydi drysu y glannau.
 - Gwahardd pysgota am unrhyw rywogaeth yn ystod ei thymor magu.
 - Rhaid i gregyn moch gael eu dal cyn lleied â phosibl, ond dylid deddfu ar gyfer hyn fel y bu mewn awdurdodau datganoledig eraill.

- Monitro a rheoli stociau crancod brown, gan nad yw'r ymdrech bresennol yn gynaliadwy. Ni ddylid defnyddio crancod brown bach fel abwyd ac mae angen monitro hyn.
- Gweithredu gwaharddiad cimychiaid wyog yn unol â gweddill y DU.
- Cyfyngu ar nifer y potiau cimychiaid y gall cwch eu pysgota o fewn y terfyn chwe milltir. Gellid gwneud hyn trwy gynllun tagio pysgota â chewyll.
- Gweithredu cwota cregyn moch.
- Pysgodfa bachyn a llinell yn unig ar gyfer draenogiaid y môr.
- Pennu'r ddalfa fwyaf a ganiateir yn unol â'r cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael gan sefydliadau gwyddonol sefydledig a rhai a gydnabyddir yn rhyngwladol. Defnyddio'r egwyddor ragofalus i sicrhau bod stociau pysgod yn cael eu cynnal yn uwch na'r lefelau sy'n gallu cynhyrchu MSY a sicrhau, erbyn 2020, fod nifer y marwolaethau o bysgota yn is na'r lefelau a fydd yn cael darparu MSY. Rhaid defnyddio dull MSY neu FMSY neu bydd Cymru'n methu â chyflawni ei rhwymedigaethau cyfreithiol rhyngwladol o dan UNCLOS a'r Cenhedloedd Unedig.
- Gwella a buddsoddi mewn gwyddor pysgodfeydd a monitro i gefnogi a llywio gwaith rheoli, yn enwedig yn y sector pysgod cregyn. Defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd i gefnogi dull sy'n seiliedig ar ecosystem.
- Sefydlu Parthau Dim Cymryd (NTZs).
- Dosbarthu cyfleoedd pysgota mewn modd a fydd yn helpu i sicrhau cynaliadwyedd tymor hir pysgodfeydd. Dyrannu ar sail meini prawf amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd tryloyw a gwrthrychol, i gymhell y pysgota mwyaf cynaliadwy. Dylai unrhyw gyfleoedd pysgota newydd ddilyn y gofynion hyn er mwyn sicrhau bod moroedd Cymru yn cael eu hadfer a'u cynnal a chadw.
- Diogelu rhwydwaith presennol Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Cymru, gydag ychwanegiadau yn y dyfodol yn ôl yr angen.
- Parhau i gofnodi, monitro a gofodi'r ymrwymiad dal.
- Gwelliant parhaus mewn mesurau rheoli gofodol, dethol offer a mesurau technegol eraill, gan gynnwys y rhai i ddiogelu rhywogaethau agored i niwed ac ecosystemau môr dwfn.
- Parhau i gydweithio ym maes rheoli'r Môr a Physgodfeydd gyda gweinyddiaethau eraill y DU a pharhau i gydweithio â gwledydd cyfagos er mwyn sicrhau bod stociau yn cael eu cynnal yn nyfroedd rhyngwladol y DU a'r tu allan iddynt.
- Ymchwilio i offer arloesol i leihau pysgota anfwriadol.
- Lleihau nifer y trwyddedau gan fod gorbysgota'n achosi gostyngiadau enfawr mewn stociau.
- Lleihau defnydd o dreillrwydi drawst a chloddio am gregyn bylchog.
- Mae newidiadau yn y tymheredd byd-eang yn golygu bod rhywogaethau'n newid yn nyfroedd Cymru, ac mae rheoli rhywogaethau yn her o dan yr amgylchiadau hyn.
- Blaenoriaethu rheolaeth addasol amrywiaeth eang o rywogaethau sydd o dan fygythiad. Mae angen rheoli crancod brown, cimychiaid a draenogiaid y môr ar frys. Awgrymwyd hefyd fod eogiaid a brithyll môr, penfras môr lwerddon, gwyniaid môr lwerddon, morgathod a mecryll yn rhywogaethau y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt, yn ogystal â môr-gyllyll ac wystrys y Môr Tawel, a rhywogaethau sy'n ffynnu yn yr amodau hinsoddol newidiol.
- Diogelu rhywogaethau gwaelod y gadwyn fwyd.

b.xiv Argymhellion Rheoli Pysgodfeydd

- Mae Grŵp Cynghori Cymru ar y Môr a Physgodfeydd (WMFAG) ar ben lleiaf y continwrm o gyd-reoli a dylid cyflwyno cydreolaeth gwbl gydweithredol o Bysgodfeydd a'r amgylchedd morol.
- Dychweliad Grwpiau Pysgodfeydd y Glannau gyda datblygiad model Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau (IFCA) yng Nghymru, neu debyg, gyda ffocws ar lywodraethu a hwyluso da, o ffynonellau allanol o bosibl. Perchnogaeth a rheolaeth gymunedol cyfleoedd pysgod o fewn dull wedi'i gyd-reoli o reoli pysgodfeydd cynaliadwy ac alinio ag agenda Ffyniant Gyffredin Llywodraeth Cymru.
- Cwblhau/gweithredu'r dulliau rheoli, fel y nodwyd gan Brosiect Asesu Gweithgareddau Pysgodfeydd Cymru.
- Gallai dull rheoli addasol sy'n seiliedig ar fonitro ddarparu penderfyniadau hyblyg ac ymatebol, a gallai pysgotwyr wneud cyfraniad at gasglu data a monitro statws stociau.
- Mae angen teilwra'r dulliau rheoli i gyd-destun unigol pysgodfeydd penodol, a rhaid i ystyriaethau ecolegol ac amgylcheddol ehangach fod wrth wraidd ei ddyluniad.
- Sicrhau bod y gymuned wyddonol yn rhan bwysig o'r dull rheoli addasol ac nad yw'n gwrando ar y diwydiant pysgota yn unig.
- Dylai Llywodraeth Cymru adnewyddu ei hymrwymiad blaenorol i gynyddu cynhyrchiant dyframaethu ar gyfer pysgod cregyn a physgod asgellog.

b.xv Argymhellion y Diwydiant

- Blaenoriaethu gwerthu bwyd môr o ddyfroedd Cymru yn y DU. Os nad oes modd gwerthu yn y wlad hon, peidiwch â physgota i'r lefelau hynny.
- Hyrwyddo pysgod a physgod cregyn cynaliadwy mewn ffordd greadigol.
- Sicrhau cynaliadwyedd tymor hir pysgotwyr, yn ogystal â stociau.
- Rhaid i gyfathrebu wella rhwng Llywodraeth Cymru a physgotwyr. Rhaid ymgysylltu o lefel Gweinidogion i lawr.
- Erllyn pysgotwyr am gyweinio pysgod cregyn a physgod asgellog yn anghyfreithlon.
- Targedu datblygu dyframaethu ar y tir.
- Agor gwahanol bysgodfeydd, megis rhai môr-gyllyll.
- Ymadael â'r UE. Mae'r PPC bron wedi dileu penfras y Gogledd ac wedi gadael i stociau draenogiaid y môr ddirywio i lefelau critigol. Gwahardd bwytai rhag gwerthu draenogiaid y môr nes bod stociau wedi gwella i lefelau cynaliadwy a'u bod yn cael eu rheoli'n briodol ar ôl Brexit.
- Blaenoriaethu'r system o drwyddedu ecosystemau/systemau dyframaethu 3D.
- Blaenoriaethu rheolaeth a gorfodaeth sy'n hanfodol er mwyn cynnal pysgodfeydd morol.
- Ei gwneud hi'n haws i bysgotwyr brosesu eu dalfa a gwerthu'n lleol.
- Gwrando ar bysgotwyr a'r rhai sy'n ymwneud â'r diwydiant a nodi eu barn arbenigol.
- Archwilio mewnforion ac allforion a sicrhau cydbwysedd trwy leihau'r cyfrif ar gwtâu tymhorol.

- Mae tiwna bellach yn cael ei ddal yn rheolaidd yn y DU, ond nid oes gan fflyd Cymru gwota ar gyfer y pysgod hyn - rhaid i hyn newid.
- Mae cyfleoedd posibl ar gyfer pysgodfeydd cimychiaid Norwy, corbenwaig a môr-lewys o fewn diwydiant Sir Benfro. Mae'r pysgodfeydd hyn yn defnyddio dulliau arbenigol a fyddai'n gofyn am fuddsoddiad ar longau. Gellid sefydlu fectorau yn y farchnad trwy drwyddedu tymor byr i gychod o'r tu allan i Gymru tra bod y bysgodfa'n tyfu er mwyn denu buddsoddiad lleol a sefydlu marchnadoedd allforio. Gallai rheoleiddio'r terfyn i ymdrech gael ei roi ar waith trwy nifer cyfyngedig o drwyddedau pan gaiff pysgodfeydd eu sefydlu.

b.xvi Deddfwriaeth

- Dylai Llywodraeth Cymru gydymffurfio â'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd a rheoliadau eraill sy'n caniatáu i bysgota morol barhau, a'r amcanion ar gyfer y dyfodol yw diogelu ecosystemau morol mewn partneriaeth â physgotwyr.
- Croesawyd yr ymrwymiad i gyflwyno Bil Pysgodfeydd Cymru.
- Nid yw Bil Pysgodfeydd y DU yn gosod dyletswydd i gyflawni'r amcanion cynaliadwyedd, ac mae pryderon cyfreithiol ynglŷn â hyn. Ymrwymodd y Gweinidog i ystyried a ddylid gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau i gyflawni'r amcanion trwy'r ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd, ac nid yw hyn wedi digwydd. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn sicrhau bod y ddyletswydd hon ar waith.
- Mae angen i Lywodraeth Cymru foderneiddio ei fframwaith deddfwriaethol, sy'n rhywbeth y mae wedi methu ei wneud yn y gorffennol. Ar hyn o bryd, mae adnoddau'n cael eu camgyfeirio, gyda gormod o staff yn ymwneud â rheoli cwtâu a dim digon yn ymwneud â newidiadau rheoli a darparu pysgodfeydd.
- Dylai'r pwyslais fod ar sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru y cymhwysedd cyfreithiol a'i bod yn cael cyfran deg o'r cyfleoedd sydd ar gael ar ôl ymadael â'r UE. Byddai bod yn gyfrifol am holl Barth Economaidd Neilltuedig Cymru, gan gynnwys y tu hwnt i'r 12 milltir forol, yn darparu'r hyblygrwydd gweinyddol a'r ymatebolrwydd hwnnw.

b.xvii Genweirio

- Gwneud Cymru yn brifddinas genweirio'r gorllewin.
- Dylai strwythurau rheoli gynnwys ffocws ar enweirio môr, trwy gydnabod y manteision a ddaw yn sgil hyn a thu hwnt i arferion pysgota masnachol, gan gychwyn gyda draenogiaid môr Ewrop.

b.xviii Argymhellion ar gyfer newidiadau Llywodraeth Cymru

- Cafwyd amryw o feirniadaethau ac awgrymiadau ar gyfer newidiadau o ran rheoli pysgodfeydd o fewn Llywodraeth Cymru.
- Er enghraifft, dylai staff gael hyfforddiant ffurfiol mewn rheoli pysgodfeydd, a dylent orfod treulio o leiaf ddiwrnod ar y môr bob blwyddyn, a chadw'r hyn y maent yn ei ddysgu mewn cof wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar fywoliaeth pysgotwyr. Dylai swyddogion gael profiad ymarferol o bysgodfeydd a dyframaethu. Weithiau, mae'r ddibyniaeth ar asiantaethau'r Llywodraeth a chynghorwyr o'r tu allan i Gymru wedi

cyflwyno golwg ddryslyd, annilys, rhagfarnllyd a lifrog o gyfleoedd dyframaethu masnachol yng Nghymru.

- Nododd sawl ymatebydd gapasiti morol cyfyngedig o fewn Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), awdurdodau lleol a'r sector cyrff amgylcheddol anllywodraethol (eNGO). Roeddent yn cynghori ynghylch mwy o gynnydd, goruchwyliaeth, arloesi a gwaith prosiect uniongyrchol.
- Cafwyd amryw o awgrymiadau ar gyfer rolau newydd ym maes rheoli pysgodfeydd. Er enghraifft, Swyddogion Pysgodfeydd Rhanbarthol neu grwpiau rheoli lleol sydd â phwerau go iawn, y gall pysgotwyr fynd atynt yn rhwydd; llysgennad Llywodraeth Cymru heb unrhyw wrthdaro buddiannau ond sydd â dealltwriaeth strategol o farchnadoedd a materion byd-eang; rôl Weinidogol Forol, Arfordirol a Physgodfeydd yn Llywodraeth Cymru gyda chyllideb benodedig a staff arbenigol, ac sy'n cyflogi arolygwyr pysgodfeydd y gellir cysylltu â nhw bob awr i fynd i'r afael â rhwydo anghyfreithlon, a all erlyn rhwydo anghyfreithlon yn effeithiol; ac unigolyn angerddol carismataidd i redeg yr adran Pysgodfeydd a Dyframaethu wedi'i hailwampio.
- Beirniadwyd y cynigion yn yr ymgynghoriad am beidio â darparu digon o fanylion. Anogwyd Llywodraeth Cymru i gynnal ymgynghoriad ychwanegol ar fanylion ei chynigion rheoli addasol. Yn benodol, y rheolaethau a roddir ar waith, sut y sicrhewr cyfranogiad priodol gan randdeiliaid a sut y craffir ar y defnydd a wneir o'r pwerau arfaethedig.
- Dylai'r gefnogaeth symud tuag at gasglu a dadansoddi data gwyddonol a gasglwyd ar y cyd â'r fflyd bysgota. Ar hyn o bryd, mae arian yn cael ei ddyrannu ar gyfer gorfodaeth gan weision sifil neu swyddogion yr heddlu sydd wedi ymddeol heb unrhyw brofiad o'r diwydiant pysgota.
- Defnyddio ap dal i ddileu'r bwch rhwng gwybodaeth yn cael ei hanfon a'i derbyn. Gellid defnyddio hyn fel cyfrwng i hysbysu pysgotwyr am gyfarfodydd neu fesurau rheoli gan y byddant yn mewngofnodi iddo ar ôl pob diwrnod ar y môr. Mae'r cyfathrebu yn rhy araf ar hyn o bryd.

Cyfleoedd Pysgota - Cwestiynau 7, 8, 9 a 10

- b.xix Cafwyd 38 o ymatebion i gwestiwn 7, 34 i gwestiwn 8, 31 i gwestiwn 9 a 32 i gwestiwn 10.
- b.xx Roedd yr ymatebion yn cynnwys amrywiaeth o argymhellion a sylwadau:
- b.xxi Argymhellion ar gyfer rheoli stociau pysgod er budd ehangach pobl yng Nghymru a chymunedau arfordirol
- Ffocws ar gydweithredu â chymunedau a diwydiannau lleol.
 - Bydd ymadael â'r UE heb gytundeb yn arwain at ddirywiad yn economïau pysgodfeydd, a dylid rheoli'r dirywiad hwn: cefnogi microfusnesau a faniau pysgod oer sy'n gwerthu'n lleol.
 - Annog twristiaeth.
 - Trafod â rhannau eraill o'r DU i gael cyfran fwy o'r cyfleoedd pysgota yn nyfroedd y DU, gan gynnwys ym mharth Cymru.

- Datblygu ffordd o sicrhau y byddai Gweinidogion Cymru yn gofalu am gwota ychwanegol gyda chyfrifoldebau i ddatblygu, cynnal a rheoli daliadau cwota Cymru yn gynaliadwy ar gyfer ac ar ran cenedlaethau'r dyfodol o bysgotwyr Cymru a'u cymunedau arfordirol.
- Diogelu cyfleoedd i fflyd y glannau rhag llongau tramor mwy o faint, a gwahardd cychod o Loegr o'r tu mewn i'r terfyn 6mf.
- Rhaid peidio â chymryd crancod cregyn meddal ac wyog.
- Dileu'r hawl mewn perthynas â draenogiaid y môr o gychod Cymru (ac eithrio treill-longau).
- Mynd ati i hyrwyddo a datblygu genweirio môr yng Nghymru, a chydabod ei fod yn denu arian sylweddol gan dwristiaid sy'n hybu economïau arfordirol.
- Atal dal draenogiaid y môr bach yn anghyfreithlon. Codi'r maint glanio lleiaf ar gyfer draenogiaid y môr, a symud tuag at erlyn y rhai sy'n eu dal gan ddefnyddio bachyn a llinell yn fasnachol.
- Diogelu eogiaid a brithyll môr rhag sgil-ddalfa o rwydi masnachol.
- Dylid dyrannu cwota ychwanegol ar sail meini prawf cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol tryloyw mewn ffordd sy'n cymell yr arferion pysgota mwyaf cynaliadwy, ac yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gallai hyn fod ar ffurf gwelliannau dethol, o ran offer ac ymddygiad, sy'n hanfodol i leihau'r angen i daflu rhywogaethau dieisiau a gwella'r gallu i gyflawni targedau. Dylid rheoli cwota newydd fel adnodd cyhoeddus er budd pawb. Dylai unrhyw gynllun cwota yn y dyfodol geisio: osgoi mwy o wrthdaro o ran offer; osgoi dadleoli; cymell ac ysgogi buddsoddiad mewn pysgota effaith isel sy'n amgylcheddol gyfrifol; lleihau ôl troed amgylcheddol pysgodfeydd ar yr ecosystem forol; a lleihau sgil-ddalfa ac atal.
- Bydd cyfleoedd pysgota newydd yn gatalydd ar gyfer buddsoddi yng nghapasiti'r fflyd er mwyn cael mynediad i bysgodfeydd nad ydynt ar gael i fflyd Cymru hyd yma, heb gynyddu capasiti y tu hwnt i derfynau cynaliadwy. Yn y tymor byrrach, gellid prydlesu stociau a allai gael eu tanddefnyddio i ddarparu'r cysylltiadau economaidd cryfaf posibl i Gymru hyd nes y caiff capasiti pysgota Cymru ei ddatblygu er mwyn cynaeafu ein dyraniad o adnoddau mewn ffordd gynaliadwy.
- Cyflwyno 'cronfa risg', gan ganiatáu rheoli cwota ar y cyd, er mwyn lledaenu'r risg o ragori ar ddyraniad atal ar draws casglyddion, gan ddarparu 'rhwyd ddiogelwch' ar gyfer llongau, yn ogystal â chymell arloesedd wrth osgoi rhywogaethau atal.
- Defnyddio pysgodfeydd byrhoedlog gwirfoddol a gaiff eu cau i osgoi taflu pysgod yn ôl.
- Defnyddio VMS a Monitro Electronig o Bell i leihau nifer y pysgod a deflir.
- Edrych ar Norwy a Sgandinafia am fodolau cynaliadwy o ran rheoli pysgodfeydd.
- Ffocws ar Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru); creu NTZs neu systemau dyframaethu ecosystemau 3D ar raddfa fawr.
- Defnyddio strategaeth reoli addasol a sicrhau mewnbyn llawn gan randdeiliaid.
- Blaenoriaethu system gwota deg ar gyfer pysgotwyr Cymru.

- Sbarduno twf economaidd a swyddi trwy wella seilwaith, logisteg, gallu prosesu a gwerthiannau arwerthiant pysgod ynghyd â'r crefftau a'r gwasanaethau ategol.
- Arloesi i gyweinio môr-gyllyll a rhywogaethau fferm gwymon, pysgod cregyn ac ieir môr sydd â defnydd heblaw bwyd a fydd o fudd i'n hamgylchedd - i grynhoi, ystyriwch bysgodfeydd o ddifrif.
- Gwladoli'r cwotâu pysgota fel bod modd eu dosbarthu yn ôl angen cymunedol a stociau pysgod.
- Hyrwyddo ac addysg – e.e. gweini pysgod a ddaliwyd yn lleol mewn ysgolion ac addysgu adnabod a pharatoi pysgod.

b.xxii Argymhellion ar gyfer mecanweithiau i helpu fflyd Cymru i addasu i gyfleoedd pysgota newydd

- Dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar anawsterau o ran cael mynediad at farchnadoedd yr UE ar ôl Brexit trwy fentrau polisi i sicrhau mynediad i farchnadoedd allforio, gweithgareddau marchnata i hybu defnydd domestig, hyfforddiant i bysgotwyr a buddsoddi mewn cyfleusterau ar y tir.
- Aros yn yr UE ac ail-drafod yr ardaloedd pysgota.
- Peidiwch â chaniatáu lladd morfilod yn nyfroedd Cymru.
- Gorfodi gwialen a llinell yn unig ar gyfer pysgod, bydd prisiau'n codi gan y bydd pobl yn talu am yr ansawdd.
- Mwy o gyfranogiad gan randdeiliaid yn y broses o reoli bysgodfeydd Llywodraeth Cymru.
- Dyrannu cwota newydd yn briodol yn unol â physgota tymhorol.
- Helpu gyda seilwaith porthladdoedd a chludiant i farchnadoedd.
- Grantiau ar gyfer gwella cychod ac offer newydd.
- Cyfyngu niferoedd rhywogaethau penodol er mwyn atal dibyniaeth ar un rhywogaeth.
- Dylid defnyddio meini prawf amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd wrth ddyrannu cyfleoedd pysgota newydd.
- Ni ddylai addasiadau i'r fflyd gael llawer o effaith amgylcheddol, a dylid defnyddio'r offer mwyaf cynaliadwy sydd ar gael.
- Rhaid i unrhyw gyfleoedd pysgota newydd gydymffurfio â'r dull MSY.
- Agor y bysgodfa langwstîn oddi ar y Smales a chaniatáu llinellau hir ar gyfer tiwna a physgod cleddyf.
- Rhoi trwyddedau ar gyfer pysgod gwyn a pheidio â gadael iddynt gael eu gwerthu i bysgotwyr o'r tu allan i Gymru.
- Bydd angen cynllun grant yn lle EMFF.
- Dylid cefnogi newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant, gan gynnwys menywod.

b.xxiii Cynhyrchu arian cynaliadwy gan y diwydiant a chymunedau arfordirol

- Mae angen cyfeiriad polisi clir gan Lywodraeth Cymru.
- Gallai prydlesu cyfleoedd pysgota i gychod gwlad arall, o leiaf yn y tymor byr, greu cyllid.
- Gallai fod yn orfodol i ddatblygwyr ynni alltraeth ariannu prosiectau cymunedol.
- Daw'r arian o'r trethi uwch y bydd bysgotwyr yn eu talu pan fydd y diwydiant yn ehangu.

- Integreiddio twristiaeth a dyframaethu i gefnogi'r gwaith o arallgyfeirio swyddi arfordirol ac adfer pysgodfeydd gwerth uchel.
- Defnyddio hysbysebu a marchnata i gael cefnogaeth a buddsoddiad lleol.
- Ffocws ar rywogaethau sy'n ddeniadol i enweirwyr, megis draenogiaid y môr. Manteisio ar enweirio môr. Gwneud Cymru y rhan gyntaf o'r DU i fod â physgodfeydd y glannau sy'n cael eu rheoli a'u plismona'n briodol.
- Bydd cyfleoedd yn deillio o ddileu cychod yr UE sy'n pysgota dyfroedd Cymru ar hyn o bryd.
- Dim ond trwy fentrau preifat y daw cyllid cynaliadwy, sydd fwyaf tebygol o gael ei seilio ar gryfderau cynhenid y diwydiant pysgota a chymunedau'r arfordir.
- Byddai datganoli pwerau rheoli gwely'r môr o Ystâd y Goron i Lywodraeth Cymru yn symleiddio cynllunio morol ac yn caniatáu mwy o reoli addasol.
- Ceir dadleuon sy'n dangos dilysrwydd rhyw fath o fenter rhentu adnoddau, gan ganiatáu i'r rhai sy'n ymwneud ag echdynnu adnoddau cyhoeddus pysgodfeydd gwyllt 'dal' cymdeithas am y fraint o wneud hynny. Fodd bynnag, mewn pysgodfeydd lle mae hyn wedi digwydd, cafwyd newid yn niwylliant rheoli'r Llywodraeth, gyda'r diwydiant a'r Llywodraeth yn gweithredu mewn ffordd fwy cyson a chydweithredol – gyda chyfrifoldebau'r Llywodraeth yn adlewyrchu'r gwerth yn ôl i'r gymdeithas ehangach. Mae'r math hwn o fodel yn lleihau cyfranogiad pleidiau eraill.
- Cosbau a dirwyon am bysgota anghyfreithlon.
- Trwy warchod yr amgylchedd morol, nid dim ond ei gynaeafu ar gyfer bwyd.
- Sefydlu sefydliad cynhyrchwyr hyfyw.
- Disodli'r EMFF gyda'r arian a anfonwyd i'r UE yn flaenorol. Creu grŵp llywio a fydd yn defnyddio'r arian yn ddoeth.
- Ffermio 3D i godi proffil dyframaethu cynaliadwy.
- Symud tuag at system reoli sy'n defnyddio'r Cynnyrch Economaidd Mwyaf (MEY) fel dull o reoli stoc, yn hytrach na'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf (MSY).
- Cyflwyno system drwyddedu gyda chyfyngiadau dal ar enweirwyr.
- Cyflwyno gwaharddiad llwyr ar ddal ein pysgod mudol brodorol, eogiaid a brithyll môr.
- Cyflwyno polisi i roi caniatâd cynllunio i gyfleusterau dyframaethu cymysg.

b.xxiv Argymhellion ar gyfer rheoli rhywogaethau atal yn effeithiol

- Nododd sawl ymatebydd nad yw rhywogaethau atal yn broblem i'r rhan fwyaf o fflyd Cymru.
- Bydd pysgota mwy dethol yn helpu i leihau daliadau digroeso.
- Cydweithio rhwng y diwydiant a chyrrff ymchwilio i offer.
- Rhaid i gydbwysedd rhwng TACs, MSY a'r rhwymedigaeth ddal fod yn bragmatig i osgoi atal.
- Gellid sefydlu cronfa risg o gwota newydd.

- Cadw cwota wrth gefn ar gyfer pan fydd atal yn broblem, gan roi'r opsiwn i ddal y rhywogaeth atal, ond dylai cyfran o'r gwerthiannau gael ei dyrannu i sefydliad megis Seafish; mae hyn yn cymell pysgotwyr i beidio â dal rhywogaethau atal ond yn atal eu taflu'n ôl os cânt eu dal.
- Dylid taflu pysgod hyfyw yn ôl. Dim ond pysgod marw neu bysgod sy'n marw y dylid eu dal.
- Ystyriwch y diwrnodau ar y môr lle caiff popeth ei ddal, a chaiff ardaloedd eu cau pan gaiff dros ganran benodol o bysgod ifanc eu dal.
- Dylai fod cwota ar gyfer cŵn pigog, sef rhywogaeth atal ar hyn o bryd.
- Gosod teledu cylch cyfyng ar y cwch.
- Annog y defnydd o offer mwy detholus. Ni ddylid defnyddio panel rhwyll sgwâr.
- Gwella gwybodaeth am rywogaethau atal.
- Defnyddio offeryn lliniaru atal y North Western Waters Advisory Council (NWWAC) i leihau effaith yr atal.
- Ymgynghori â chenedloedd eraill sydd â physgodfeydd cynaliadwy sy'n cael eu rheoli'n dda.
- Mae atebion ar gyfer atal megis osgoi, dethol a chwotâu yn gofyn am strategaethau rheoli addasol sy'n deillio o gyfraniad rhanddeiliaid a chasglu a dadansoddi data ansawdd.
- Ystyried neilltuo cyfran o unrhyw gwota ychwanegol sy'n codi ar ôl Brexit i leihau/gwrthbwyso atal. Yn y tymor hwy, mae angen ymagwedd fwy cyfannol, seiliedig ar ecosystemau a rhagofalon i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gyflawni eu rhwymedigaethau rhyngwladol o ran GES a MSY a diogelu'r ased cyhoeddus hwn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Gallai Llywodraeth Cymru ystyried hefyd dreial gwyddonol wedi'i dargedu arfaethedig DEFRA o system seiliedig ar ymdrech yn nyfroedd y glannau yn Lloegr a sut y gallai hyn gael ei roi ar waith yng Nghymru.
- Gadael rhywogaethau atal i fod. Mae gan rywogaethau mewn pysgodfeydd cymysg â chwota isel y statws hwnnw am reswm. Mae "datblygu cynigion i leihau'r risg hon" yn golygu gostwng neu anwybyddu'r statws hwnnw, ac mae'n anghydnaws â chynnal cynaliadwyedd.
- Edrych ar bysgodfa pysgod daear Canada, lle mae'r diwygiadau a arweinir gan y diwydiant gyda phwyslais ar atebolrwydd wedi arwain at adfer hen rywogaethau atal.
- Cyflwyno gwaith monitro electronig o bell (REM) i bob un o'r cychod dros 10m a rhai (ond yn ddelfrydol pob un) o'r cychod o dan 10m i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ymrwymiad dal. Dylid hefyd cynnal ymweliadau ar hap i gefnogi'r data hwn.
- Dylid datblygu cynllun lliniaru atal ar gyfer Cymru.
- Dylid cadw rhywogaethau atal, eu trosglwyddo i awdurdodau am bris enwol a dylai cyfanswm y pwysau gyfrif yn erbyn cwota rhywogaethau eraill.
- Dylai'r ardaloedd y gwyddys bod ganddynt rywogaethau atal fod ar gau i bysgota.
- Lleihau effeithlonrwydd pysgota. Mwy o gychod bach a mwy o bobl yn cael eu cyflogi.

Pysgod Cregyn a Dyframaethu – Cwestiynau 11, 12 a 13

- b.xxv Cafwyd 38 o ymatebion i gwestiwn 11, 34 i gwestiwn 12 a 29 i gwestiwn 13.
- b.xxvi Roedd yr ymatebion yn cynnwys amrywiaeth o argymhellion a sylwadau.
- b.xxvii Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno â chynigion yn y ddogfen i reoli pysgod cregyn a dyframaethu mewn ffordd hyblyg. Lle dywedodd yr ymatebwyr nad oeddent yn gwybod a oeddent yn cytuno, ni roddodd y rhan fwyaf ohonynt reswm. Codwyd y pwyntiau canlynol gan yr ymatebwyr hyn:
- Nid oedd y cynigion yn cynnwys digon o esboniad.
 - Mae angen mwy o dystiolaeth, a byddai'n dibynnu ar amodau a rheoli digwyddiadau yn ddiweddar.
 - Mae angen cymorth RNLI.
 - Dim ond hyrwyddo dyframaethu caeedig.
 - Dylai fod deorfa cimychiaid yn Abergwaun oherwydd ansawdd y dŵr.
 - Mae'n bwysig gweld sut mae mesurau yn dryloyw, sut y bydd pwerau yn cael eu cyfyngu o ran cwmpas a bod pob penderfyniad yn seiliedig ar dystiolaeth ar sail argymhellion gwyddonol annibynnol.
 - Byddai'n fuddiol adolygu'r system Gorchmynion Pysgodfa Unigol, ond byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer adolygiad o'r fath. Rhaid i unrhyw adolygiad sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), a dylid ymgynghori arnynt ar wahân.
- b.xxviii Nid oedd rhai o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion rheoli yn y ddogfen ymgynghori. Dyma restr o sylwadau a beirniadaethau nad ydynt yn hollgynhwysol:
- Byddai rheoli cregyn bylchog Bae Ceredigion mewn ffordd hyblyg o fudd mawr iawn i dreillwyr cregyn bylchog am ychydig, ond ni fyddai'n fuddiol i organebau benthig a'u hysglyfaethwyr.
 - Mae angen cael gwaharddiad ar ddal cimychiaid wyog, yn unol â gweddill y DU.
 - Ymddengys nad yw'r cynigion yn deall hunaniaeth ac anghenion y sector dyframaethu. Nid yw pysgodfeydd pysgod cregyn a dyframaethu pysgod cregyn yr un fath, ac ni ellir eu rheoli mewn modd tebyg i'r hyn a awgrymir yn y ddogfen ymgynghori. Ni all y Llywodraeth reoli dyframaethu, gan fod rhaid i'r penderfyniadau o ddydd i ddydd ac o dymor i dymor gael eu gwneud gan y Gweithredwr, yr un fath ag ar gyfer amaethyddiaeth tir. Yn hytrach, gall y Llywodraeth ganiatáu dyframaethu. Mae'r ddogfen yn awgrymu y byddai'r polisi yn arwain at danseilio sicrwydd deiliadaeth i'r gweithredwr dyframaethu. Fodd bynnag, mae'r ddogfen yn ymrwymo hefyd i dwf y sector, sy'n wrthddywediad amlwg.
 - Mae Deddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 yn darparu ar gyfer creu gorchmynion pysgodfa (naill ai ar gyfer pysgodfa unigol neu reoleiddio neu hybrid). Ond nid yw hyn yn darparu "mynediad cyfyngedig i wely'r môr am gyfnod"; yn hytrach, ni chaniateir unrhyw

weithgarwch sy'n niweidio'r broses drin. Nid yw hyn yn atal lluo o weithgareddau eraill rhag digwydd o fewn ffiniau ardaloedd gorchmynion pysgodfa, hyd yn oed ar wely'r môr.

- Mae'r broses o wneud cais am orchymyn newydd yn rhy hir ac ansicr. Fodd bynnag, mae Deddf 1967 yn gymwys yng Nghymru a Lloegr ac mae'r ddeddfwriaeth yn gweithredu'n fwy effeithiol yn Lloegr. Methiant mewnol tymor hir o fewn Llywodraeth Cymru sy'n gwbl gyfrifol am y methiant i gymhwyso'r gweithdrefnau sy'n amlwg yn Neddf 1967. Mae swyddogion y Llywodraeth wedi cydnabod hyn. Dylai hyn fod yn destun ymchwiliad mewnol ffurfiol.
- Mae'r broses ymgeisio hirfaith yn cael ei datrys trwy sefydlu prosesau newydd, a disgwylir i'r trefniadau newydd hyn weithio'n dda iawn a gwneud i'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori ymddangos yn ddiangen.
- Dadleuodd un ymatebydd mai'r drefn a sefydlwyd o dan Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 yw'r sail ar gyfer y tyfiant pysgod cregyn mwyaf llwyddiannus yn y DU gyfan, yn Afon Menai. Gellir dadlau mai'r Ddeddf hon yw'r darn mwyaf effeithiol o ddeddfwriaeth pysgodfeydd y DU ar y llyfr statud, ac ni ddylid ei gwaredu'n ysgafn. Nid yw trin pysgod cregyn yn y môr yn bosibl heb droi at y Ddeddf gan fod gan y cyhoedd yr hawl i bysgota yn y môr o dan Magna Carta, ac ni ellir ei ddileu trwy gyfundrefn drwyddedu, dim ond trwy Orchmynion Pysgodfa Unigol o dan y Ddeddf
- Mae angen buddsoddi amser ac adnoddau i drin pysgod cregyn. Mae'r ffermydd pysgod cregyn yn Nwyrain Afon Menai wedi gallu datblygu a mireinio technegau trin o dan Orchymyn Pysgodfa 60 mlynedd, ac ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl o dan drwydded tymor byr.
- O dan rai amgylchiadau, efallai y bydd hi'n briodol cael dull symlach ochr yn ochr â'r system Gorchmynion Pysgodfa Unigol a Rheoleiddio sy'n bodoli eisoes. Gall hyn fod yn gysylltiedig â graddfa ddaearyddol y gweithrediad arfaethedig, agosrwydd at Safleoedd Gwarchoddedig, a dull a rhywogaethau sy'n cael eu trin, fel ffordd o roi hwb cychwynnol i fentrau trin newydd. Byddai angen cynllunio hyn yn ofalus a'i weithredu er mwyn osgoi tanseilio'r dull Gorchmynion Pysgodfa Unigol a Rheoleiddio sy'n gweithio'n dda ar rai o'r pysgodfeydd pysgod cregyn mwyaf llwyddiannus yng Nghymru.
- Nid yw'r ymgynghoriad yn cydgysylltu â gweithgarwch ecosystem ar y tir ac, yn benodol, y manteision a gaiff rhai rhywogaethau o bysgod cregyn o ran cefnogi cyrff dŵr sy'n llawn maetholion. Mae angen i'r agenda nwyddau cyhoeddus a grybwyllwyd gan Lywodraeth Cymru fod â dull cydgysylltiedig rhwng tir a'r môr sydd ar goll ar hyn o bryd.
- Mae'n ymddangos y byddai'r gyfundrefn rheoli dyframaethu yn canolbwyntio ar dwf yn unig, ond efallai na fydd hyn yn briodol mewn rhai ardaloedd a byddem yn awgrymu y dylai cyfundrefn reoli ystyried hyn.
- Dylid cynnal ymgynghoriad penodol ar y cynigion o dan gwestiynau 5, 6, 11 a 12 gyda lefel uwch o fanylder ar gael.
- Rhoddodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) bwerau penodol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Gorchmynion Pysgodfa Unigol

a Rheoleiddio i ddiogelu'r amgylchedd a Safleoedd Morol Ewropeaidd yn benodol - gan gynnwys y gofyniad i gynnwys darpariaethau amgylcheddol yn y Gorchmynion hyn, a phwerau i gyflwyno hysbysiadau gwarchod safle ac amrywio neu ddirymu Gorchmynion. Mae'n ymddangos bod y cynnig presennol yn dileu'r gallu hwn ac yn gofyn am fecanweithiau amgen i gyflawni hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i fynd i'r afael â phryderon WEL mewn Canllawiau ar ran 5 o'r Ddeddf. Rydym yn tybio y bydd y canllawiau hyn yn parhau i fod yn berthnasol hyd nes y gwneir unrhyw newid deddfwriaethol pellach, ac anogwn iddo gael ei gynhyrchu, gan ymgysylltu â phartïon â diddordeb gan gynnwys WEL, heb unrhyw oedi pellach.

- Mae'n ymddangos y byddai'r gyfundrefn reoli yn canolbwyntio ar dwf yn unig, ond efallai na fydd hyn yn briodol mewn rhai ardaloedd a dylai cyfundrefn reoli ystyried hyn. Er mwyn hwyluso twf a rhoi sicrwydd i fusnesau, mae'n hanfodol canfod y capasiti cario a chapasiti cronol y corff dŵr sy'n derbyn a sensitifrwydd y cynefin ac unrhyw ddyndodiadau.

b.xxix Rheoli pysgodfeydd pysgod cregyn mewn ffordd hyblyg

- [Rheoli] Pysgodfeydd cregyn bylchog er mwyn cynnal cynaliadwyedd.
- Defnyddio prosesau monitro amser real a rheoli stociau pysgod cregyn mewn ffordd hyblyg ac addasol sy'n rhychwantu'r ffin 12mf.
- Dylai'r broses o reoli pysgod cregyn ystyried y cyfyngiadau naturiol sy'n wynebu pysgotwyr y glannau. Mae hyblygrwydd yn caniatáu i bysgotwyr gario drosodd gwota nad yw wedi'i ddefnyddio heb gyfaddawdu cynaliadwyedd.
- Bod â thymhorau caeedig ar gyfer pysgodfeydd unigol. Pan fydd un ar gau, gellir agor un arall.
- Rhoi cynaliadwyedd tymor hir adnoddau'r cefnfor cyn trachwant.
- Lleihau ymdrech cregyn moch yn unol â mwy o ymdrech gyda gostyngiad mewn maint cyfartalog.
- Sicrhau bod y gyfundrefn reoleiddio a weithredir yn glir ac yn gymesur, ac yn hawdd i bartïon â diddordeb ymgysylltu â hi.
- Defnyddio'r dyfroedd o amgylch Ynys Enlli fel ardal brofi ar gyfer pysgota pysgod cregyn gan breswylwyr yr ynys yn unig. Gellir cysylltu ymdrechion yn uniongyrchol â gallu adfywiol y rhywogaeth darged, a gall swyddogion, pysgotwyr, gwyddonwyr a buddiannau busnes reoli mewn ffordd gydweithredol.
- Monitro niferoedd rhywogaethau yn erbyn y tymheredd sy'n newid a defnyddio'r data i reoli pysgodfeydd pysgod cregyn.
- Yn ogystal â sicrhau'r pwerau angenrheidiol i weithredu cyfundrefn reoli ymaddasol ar gyfer pysgodfeydd pysgod cregyn Cymru, mae angen yr un mor bwysig i fynd i'r afael â'r bylchau mewn tystiolaeth o ran asesiadau stoc pysgod cregyn a symud tuag at fesurau rheoli pysgodfeydd sy'n rheoli'r ymdrech a/neu'r ddalfa. Ar hyn o bryd, mae'n bosibl bod rhai pysgodfeydd pysgod cregyn yn cael eu pysgota ar eu capasiti neu'n agos at eu capasiti, gan effeithio ar allu'r ecosystem i gynnal diwydiant pysgod cregyn tymor hir hyfyw.

- Nid yw'r rhan fwyaf o stociau pysgod cregyn y DU wedi cyflawni GES. Wrth fynd ar drywydd GES, rheoli stociau y gellir eu defnyddio'n fasnachol o fewn terfynau biolegol diogel sy'n gallu cynhyrchu MSY, dylid ystyried hefyd swm y rhywogaeth a dynnir trwy ddulliau hamdden neu anfasnachol wrth gyfrifo'r lefelau y gellir eu pysgota'n gynaliadwy.
- Cefnogwyd yr egwyddor o godi ffi am fynediad i bysgodfeydd a ganiateir gan CNC, a oedd yn argymhell buddsoddi'r arian mewn casglu, monitro a rheoli data, ac ymchwil.
- Dylid cyflwyno mesurau domestig i ddiogelu cimychiaid wyog a chimychiaid cochion.
- Ni ddylid agor pysgodfeydd newydd ar gyfer môr-gyllyll a chregyn bylchog tan y bydd gwaith ymchwil yn cael ei wneud i ddeall yr effeithiau amgylcheddol yn well.

b.xxx Rheoli dyframaethu mewn ffordd hyblyg

- Mae poblogaethau wystrys brodorol (*Ostrea edulis*) yn dirywio ar hyn o bryd yn sgil pwysau amgylcheddol, ac mae'r wystrys Portiwgeaidd *Crassostrea gigas*, rhywogaeth ymledol, yn cynyddu eu hamrediad yng Nghymru. Mae wystrys yn rhan bwysig o ecosystemau gan eu bod yn hidlo cyfeintiau enfawr o ddŵr. Gallai'r ddwy rywogaeth gael eu ffermio gyda'i gilydd a'u defnyddio fel biohidlenni i helpu i leihau siltio a halogiad o ddŵr ffo o ffermydd a gweithfeydd trin carthion.
- Pan gaiff safleoedd eu gwerthuso a'u pasio gan CNC fel rhai sy'n addas i'r diben, gellid dyrannu'r safleoedd hyn yn gyflymach i gwmnïau sy'n dymuno buddsoddi. Ceisiwch gynnwys poblogaethau lleol gymaint â phosib yn hytrach na rhoi popeth i ffwrdd i un neu ddau gwmni mawr.
- Efallai na fydd angen i systemau rhaff ar y môr gael eu diogelu mewn Gorchymyn Pysgodfa Unigol, felly gallai cyfundrefn drwyddedu newydd ar gyfer sefydlu'r systemau hyn gael effaith gadarnhaol iawn.
- Gallai Llywodraeth Cymru ystyried dull rhagweithiol o dargedu buddsoddwyr a chyfleoedd buddsoddi. Nid oes unrhyw waith paratoi yn cael ei wneud o hyd i groesawu nac annog mewnfuddsoddwyr i Gymru, er ein bod wedi bod yn gofyn am ddull o'r fath ers bron i 30 mlynedd.
- Dylai'r gyfundrefn reoli grynhoi a dosbarthu data y gellir ei ddefnyddio i liniaru datblygiadau yn y dyfodol, megis o ffermydd cregyn gleision ar y môr sy'n ymwneud ag effeithiau a manteision amgylcheddol.
- Mae gweithredwyr yn mynd at Ystâd y Goron ar gyfer prydlesi safleoedd ond, er bod y brydles hon yn rhoi hawliau unigryw o ran gwely'r môr i weithredwyr, nid yw'n dileu hawl y cyhoedd i bysgota; dim ond Gorchymyn Pysgodfa Unigol all wneud hyn. Gan fod trin pysgod cregyn yn cael ei eithrio o'r gofyniad am drwydded forol ar hyn o bryd, efallai mai Ystâd y Goron fydd yr unig Awdurdod Cymwys o dan y Rheoliadau Cynefinoedd. Mae Llywodraeth Cymru a'i chyrrff cyflawni mewn sefyllfa well i reoleiddio dyframaethu ar wely'r môr. Mae cyfundrefn reoli newydd ar gyfer dyframaethu yn gyfle i sicrhau bod yr holl gydsyniadau, trwyddedau ac asesiadau gofynnol o dan ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol yn cael eu trin o dan un ymbarél, gydag amserlen ddiffiniedig. Byddai hyn yn rhoi mwy o

sicrwydd i weithredwyr a rhanddeiliaid, ac yn sicrhau bod effeithiau amgylcheddol posibl yn cael eu rheoli'n briodol.

- Mae'n ymddangos bod y cynigion wedi'u targedu'n bennaf at bysgod cregyn, ond dylid ystyried pysgod fin hefyd.
- Mae dyframaeth yn cynrychioli un o'r prif rywogaethau anffrodorol ymledol Cyflwyniad llwybrau yn yr amgylchedd morol ac mae CNC o'r farn y dylid bod yn ofalus o ran defnyddio rhywogaethau anffrodorol mewn dyframaethu.

b.xxxi Sylwadau ar gynyddu cynhyrchiant dyframaethu yng Nghymru

- Er mwyn cynhyrchu lefelau digonol o gynhyrchiant i sicrhau hyfywedd economaidd realistig, mae angen bod yn uchelgeisiol a meddwl yn fwy. Mae hyn yn wir am systemau deorfa ar gyfer cynhyrchu hadau pysgod cregyn ac yn fwy felly ar gyfer tyfu pysgod asgellog. Ychydig iawn o gyfle sydd i ffermio cewyll ar arfordir Cymru, felly mae angen gweithrediadau ar y tir a/neu newydd ar raddfa realistig er mwyn cynnal diwydiant dyframaethu o ddifrif.
- Mae mwy a mwy o ddiddordeb mewn systemau ailgylchrediad morol ar gyfer cynhyrchu uwch-leisiad ac mae tueddiad parhaus tuag at ffermio amgylcheddol rheoledig – gallai Cymru fod ar flaen y gad o ran y math hwn o ffermio a defnyddio'r math hwn o ffermio ar gyfer rhywogaethau newydd ac mae datblygu'r technegau hwsmonaeth, y systemau a'r deietau gofynnol ac ati yn feysydd lle byddai cymorth gan y Llywodraeth yn cael ei dargedu'n dda.
- Mae dyframaethu alltraeth o ran rhywogaethau asgellog yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd. Nid yw trin pysgod dwygragenog mor niweidiol.
- Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi'r pethau sy'n torri tir newydd yng Nghymru, megis fferm wymon newydd yn Sir Benfro a ffermydd cregyn bylchog sydd yn eu babandod. Dylid ei gwneud hi'n haws i gwmnïau sicrhau tir, a gwneud cyllid yn hygyrch.
- Gwahardd pysgodfeydd llymriaid. Defnyddio sgil-ddalfa i fwydo pysgod fferm yn lle ei daflu'n ôl. Peidiwch â chaniatáu ffermydd pysgod ar arfordir Cymru.
- Gwrando ar y rhai sy'n ymwneud â datblygu dyframaethu masnachol a datblygu perthynas waith agosach gyda busnesau dyframaethu. Sefydlu'r data gwaelodlin priodol i ddenu buddsoddwyr ac yna marchnata'r cyfleoedd.
- Copïo gwledydd sy'n llwyddiannus ym maes dyframaethu.
- Hwyluso'r prosesau trwyddedu a chydsynio.
- Annog pobl i wneud cais am drwydded - cynnig cymhellion.
- Peidiwch â gwneud dim tra bod elw yn dinistrio'r amgylchedd.
- Nodi safleoedd dyframaethu.
- Darparu cyllid a chymorth.
- Cydweithio.
- Chwilio am gyfleoedd i arallgyfeirio.
- Rhoi help a chymorth cyfreithiol i ddelio â phrydlesi Ystâd y Goron.
- Os na chaiff ansawdd dŵr ei wella trwy atal llygredd, does dim pwynt ceisio cymryd rhan mewn unrhyw brosiectau dyframaethu.
- Sicrhau bod polisiâu'r Llywodraeth yn gywir a bydd busnes yn dilyn.

- Gwneud mwy i hyrwyddo bwyd môr Cymru.
- Mae'r ddaearyddiaeth yn anghywir, gormod o lanw a thonnau mawr.
- Bydd mabwysiadu a gweithredu polisïau perthnasol sy'n benodol i sector yn rhan allweddol o ddatblygiad cynaliadwy'r sector dyframaethu.
- Bydd prosiect Rheoli Adnoddau Naturiol Morol yn Gynaliadwy (SMMNR), a ariennir gan EMFF, yn gwneud cyfraniad hollbwysig at ddatblygu rhan o'r sail dystiolaeth dyframaethu.
- Mae goblygiadau o ran sefydlu dyframaethu mewn ardaloedd lle mae ansawdd y dŵr yn wael. Yn ogystal â hyrwyddo cydfodolaeth â datblygiadau morol eraill i gynyddu'r defnydd o ardaloedd morol, dylid annog cynigion dyframaethu pysgod cregyn mewn ardaloedd lle mae ansawdd y dŵr yn dda.
- Efallai bod gan CNC a Llywodraeth Cymru gyfraniad i'w wneud o ran codi ymwybyddiaeth o'r dirwedd ddeddfwriaethol amgylcheddol sy'n ymwneud â dyframaethu er mwyn sicrhau dealltwriaeth o bwysigrwydd asesiadau amgylcheddol cadarn, a chael consensws yn eu cylch, o ran diogelu cydnerthedd ecosystemau morol i gefnogi diwydiant dyframaethu cynaliadwy ac amserlenni cydsynio realistig.
- Croesewir mentrau dyframaethu sy'n darparu a hyrwyddo abwyd pysgota a ffermir yn gynaliadwy fel dewis amgen i abwyd a gesglir o'r gwyllt.
- Rhaid i unrhyw adolygiad sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), a dylid ymgynghori arnynt ar wahân.
- Mae angen asesiad gwybodus o sut beth fyddai diwydiant cynaliadwy a sut i sicrhau lle ar gyfer y farchnad. Dylid sefydlu Grŵp Technegol Dyframaethu Cymru (sy'n dilyn grwpiau o'r DU a'r UE) i sicrhau bod unrhyw ddiwydiant newydd yn gynaliadwy (ardystiad i'r Aquaculture Stewardship Council a'r Global Aquaculture Alliance. Byddai'r grŵp hwn yn cynnig cyngor a help, a dylai gynnwys diwydiannau, eNGOs, rheoleiddwyr a'r byd academaidd.
- Dim ond os gellir gwneud hyn mewn modd sy'n amgylcheddol gyfrifol ac yn cyflawni ein hymrwymiaadau i Nodau Datblygu Cynaliadwy a chyflawni GES y dylai Cymru gynyddu cynhyrchiant dyframaethu.
- Mae angen i Lywodraeth Cymru gynnig sicrwydd i fusnesau newydd trwy asesu gallu'r amgylchedd ac ymgorffori dyframaethu mewn Cynlluniau Asesiad Amgylcheddol Strategol (SAE) sy'n nodi ardaloedd sy'n addas ar gyfer twf.
- Nid yw cynlluniau yn yr WNMP drafft i ddyblu dyframaethu yn glir ac nid yw'n ymddangos eu bod yn seiliedig ar dystiolaeth.
- Y ffordd hawsaf i Gymru gynyddu ei chynhyrchiant dyframaethu fyddai trwy gynyddu cynhyrchiant pysgod cregyn ar wely'r môr ac mewn systemau rhaff crog.
- Rôl busnesau Cymru yw nodi cyfleoedd (naill ai ar eu pennau eu hunain neu mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru) ar gyfer cynhyrchiant dyframaethu. Rôl Llywodraeth Cymru yw hwyluso'r broses o ddatblygu cyfleoedd dyframaethu newydd a diogelu'r gwaith o gynhyrchu dyframaethu presennol yn y dyfodol.

- Mae angen i'r rhyngweithio rhwng y Llywodraeth a'r diwydiant aeddfedu. Mae swyddogion y Llywodraeth naill ai'n amharod neu'n methu â chyfathrebu â'r diwydiant mewn modd agored. Mae'n ymddangos eu bod wedi'u cyfyngu gan brosesau mewnol hen ffasiwn a hunandrechol. Mae'r diwydiant yn cael gwybod yn aml fod datblygiadau yn anghydnaws â deddfwriaeth ond na all swyddogion ddisgrifio pa rannau na sut, oherwydd y defnydd amhriodol o fraint y cleient gan eu hymgynghorwyr cyfreithiol. Mae'r dull hwn o ddatblygu yn gwbl hurt. Heb ymgysylltu ar y cyd, ychydig iawn y gellir ei gyflawni. Mae angen i ddiwylliant y Llywodraeth newid.

Masnach – Cwestiynau 14, 15 ac 16

b.xxxii Cafwyd 35 o ymatebion i gwestiwn 14, 40 i gwestiwn 15 a 37 i gwestiwn 16.

b.xxxiii Roedd yr ymatebion yn cynnwys amrywiaeth o argymhellion a sylwadau.

- Gallai Llywodraeth Cymru helpu i sicrhau twf trwy ddatblygu marchnadoedd newydd.
- Gellid gwella'r cysylltiadau trafnidiaeth i borthladdoedd anghysbell.
- Gallai glaniadau cyfanredol trwy drefniadau cydweithredol gynyddu marchnadoedd domestig ar gyfer pysgod asgellog a ddelir yng Nghymru.
- Gwneud cysylltiadau â'r sectorau lletygarwch a thwristiaeth. Cyswllt â Croeso Cymru.
- Rhaid bod gan fwyd môr bresenoldeb allweddol yn nigwyddiadau masnach Bwyd a Diod Cymru. Mae hyrwyddo a marchnata cynnyrch yn allweddol. dylech fod yn falch o rywogaethau nad ydynt yn benfras, yn lleden neu'n hadog.
- Defnyddio draenogiaid y môr a ddaliwyd gan ddefnyddio bachyn a llinell yn unig a'i farchnata fel y bysgodfa orau a mwyaf cynaliadwy ar gyfer draenogiaid y môr yn Ewrop. Gwahardd arferion rhwydi dinistriol.
- Datblygu rhywogaethau eraill o bysgod asgellog mewn marchnadoedd a chynhyrchion newydd.
- Dylid rheoli'r broses o ddatblygu unrhyw farchnad neu gynhyrchion newydd gyda'r nod o gefnogi pysgodfeydd tymor hir cynaliadwy neu dyframaethu cyfrifol a chyfrannu at foroedd ac arfordiroedd iach a glân.
- Mae'r Dwyrain Pell yn farchnad enfawr ar gyfer crancod a chimychiaid byw.
- Ymgynghori â gwledydd sydd eisoes yn llwyddo i bysgota'n gynaliadwy.
- Cyflwyno olynydd i EMFF a fydd yn parhau i gefnogi datblygu cynhyrchion a mentrau cysylltiedig â bwyd.
- Gyda'r posibilrwydd o dariffau yn y dyfodol, gall hybu dalfeydd lleol a lleihau cyfanswm yr allforion fod yn hanfodol i rai marchnadoedd.
- Mae'n debygol iawn mai Ewrop fydd y farchnad fawr ar gyfer bwyd môr Cymru yn y dyfodol o hyd. Hon yw ein marchnad agosaf a'r fwyaf

yn y byd ar gyfer bwyd môr wedi'i fewnforio. Mae Brexit yn her sylfaenol yn hyn o beth.

- Fel corff ardollau, mae gan Seafish gyfraniad i'w wneud yn natblygiad y sector ac mae Cymru'n derbyn gwasanaeth gwell gan Seafish i gefnogi datblygiad yn y sector. Byddai Seafish yn cefnogi Llywodraeth Cymru i ddarparu mwy o adnoddau ariannol i Seafish, i gefnogi gweithgarwch yng Nghymru sy'n cyd-fynd â'i gynllun corfforaethol a ddatblygwyd gan y diwydiant a Strategaeth Bwyd Môr Cymru, i gefnogi gweithgarwch masnach ymhellach trwy ei swyddogaeth allforio.
- Ar hyn o bryd, mae archfarchnadoedd mawr y DU yn caffael pysgod cregyn o barthau Dosbarth A, tra bod y rhan fwyaf o barthau dosbarthu o fewn ardaloedd cynhyrchu molysgiaid dwygragennog dynodedig Cymru yn cyflawni dosbarth B-LT fel arfer, gyda rhai yn Nosbarth B neu C. Gallai gwella ansawdd dŵr pysgod cregyn i safon sy'n gyson â Dosbarth A agor marchnad fewnol sylweddol ar gyfer pysgod cregyn Cymru.
- Dylid annog arallgyfeirio yn y farchnad yn hytrach na datblygu'r farchnad.
- Mae targedau ar gyfer twf a datblygu'r farchnad ar gyfer cynhyrchion bwyd môr presennol a newydd wedi'u pennu gan Bwyllgor Cyngori Seafish Cymru (SWAC), yn Strategaeth Bwyd Môr Cymru. Dylid monitro'r broses o gyflawni'r rhain yn ofalus a dylid mynd i'r afael â'r methiant i'w cyflawni cyn gynted â phosibl.
- Gellid gwella'r gefnogaeth i fusnesau bach a chanolig (BBaChau), lleihau pellter teithio nwyddau a gafaelir a chaffael bwyd môr Cymru.
- Sefydlu llawer o gyfleusterau storio oer lleol ar raddfa lai ar gyfer pysgod a marchnadoedd pysgod mewn cymunedau arfordirol.
- Gwneud ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o bysgod mewn ysgolion.
- Ni fydd twf y diwydiant pysgota o fudd i gymunedau arfordirol; yn hytrach, mae twristiaeth, y byd academaidd a llywodraeth leol yn hanfodol i economïau arfordirol. Hyd nes y bydd ecosystemau sylfaenol yn gwella, ni ddylid annog twf. Yn hytrach, dylid annog hamdden a thwristiaeth gynaliadwy. Dylai Bwrdd Croeso Cymru gynnal blwyddyn bywyd gwyllt i archwilio amrywiaeth cyfoethog amgylchedd morol Cymru.
- Blaenoriaethu cwblhau'r rhwydwaith Ecolegol Cydlynus o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, a sicrhau bod y rhwydwaith yn mynd i'r afael â phryderon o ran cadwraeth rhywogaethau symudol.
- Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi ail-gyflwyno rhywogaethau eiconig megis yr eryr tinwyn.
- Cefnogi twf gwymon i'w fwyta gan bobl.
- Mae gorbysgota'n cael effaith niweidiol ar stociau. Ni allwch ddatblygu marchnadoedd newydd heb stoc.
- Gwneud mwy o ymchwil i ddyframaethu a physgodfeydd cynaliadwy, yna eu marchnata.
- Caniatáu pysgota am gregyn bylchog a môr-gyllyll o fewn y parth 6mf. Edrych hefyd ar gynyddu cwota ar gyfer pysgod asgellog.

b.xxxiv Roedd y rhan fwyaf a ymatebodd i gwestiwn 15 o'r farn bod gan Lywodraeth Cymru rôl i'w chwarae o ran hybu diddordeb defnyddwyr yn y DU mewn bwyd môr o Gymru.

b.xxxv Awgrymodd yr ymatebwyr y strategaethau canlynol ar gyfer hybu diddordeb defnyddwyr y DU:

- Marchnata a hyrwyddo rhywogaethau amrywiol. Hyrwyddo gwymon. Mae brandio, hysbysebu a pheccynnu yn ffactorau allweddol.
- Gwella prosesu lleol.
- Marchnata dyfroedd Cymru. Datblygu marchnadoedd lleol trwy weithgareddau addysgol a hyrwyddo.
- Profi bod cynhyrchion yn cael eu pysgota'n gynaliadwy ac argyhoeddi'r defnyddiwr nad yw defnyddio microblastigau yn broblem.
- Creu a hyrwyddo cynhyrchion a gynhyrchir yn lleol.
- Cynhyrchu pysgod asgellog yn lleol.
- Defnyddio draenogiaid y môr a ddaliwyd gan ddefnyddio bachyn a llinell yn unig a'i farchnata fel y bysgodfa orau a mwyaf cynaliadwy ar gyfer draenogiaid y môr yn Ewrop. Cyflwyno safonau ar gyfer cadw draenogiaid y môr mewn cyflwr perffaith a'u cael i'r farchnad yn gyflym iawn.
- Bod â dull cydgysylltiedig o annog y cyhoedd i roi cynnig ar fwyd môr mwy cynaliadwy ac amrywiol. Mae gan hyn y potensial i fod yn ymdrech gydweithredol gadarnhaol rhwng cynhyrchwyr, gwerthwyr, grwpiau amgylcheddol a'r llywodraeth.
- Cyflwyno Monitro Electronig o Bell, a theledu cylch cyfyng yn benodol, i ddarparu'r sail dystiolaeth i roi hyder i ddefnyddwyr a gwerthwyr bod bwyd môr Cymru yn cael ei ddal yn gynaliadwy.
- Cynnwys y trydydd sector; Mae ganddynt fynediad at filoedd o randdeiliaid a gallant rannu gwybodaeth mewn perthynas â physgodfeydd a'r amgylchedd morol.
- Datblygu cynhyrchion newydd a siopau manwerthu newydd, gan gynnwys y rhyngrwyd.
- Mae angen i fwyd môr ymwneud â datblygu Gwerthoedd Brand Cynaliadwy.

b.xxxvi O ran a ddylid ehangu marchnadoedd newydd ar gyfer bwyd môr Cymru y tu allan i'r UE, gwnaeth yr ymatebwyr yr awgrymiadau a'r sylwadau canlynol:

- Dod o hyd i farchnadoedd newydd trwy deithiau masnach neu gysylltiadau'r llywodraeth.
- Roedd marchnadoedd tramor a awgrymwyd yn cynnwys: Hong Kong, Dubai, Rwsia, y Dwyrain Canol, Singapore a Tsieina.
- Marchnadoedd domestig yn y DU.
- Gallai adrannau a chyrrff Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n hyrwyddo, marchnata a chynghori ar fasnach dramor helpu i nodi marchnadoedd newydd a'u gofynion, gan gynnwys mynediad, diogelwch bwyd a llwybrau trafnidiaeth.
- Mae cadwyni cyflenwi byr yn dal i fod yn arbennig o bwysig i gyflenwi pysgod cregyn byw.

- Pam allforio pysgod o gwbl neu anfon pysgod i ffwrdd fel gwrtaith? Cyfyngu ein cwtâu, lleihau ein fflyd ac arbed y pysgod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Ni ddylai busnes reoli'r amgylchedd.
- Mae cofnodion dalfeydd a VMS, ynghyd â'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer rheoli pysgodfeydd a datblygu cynaliadwy, yn darparu'r fframwaith tarddiad craidd ar gyfer marchnata bwyd môr yn ddomestig a thu hwnt.
- Dylem chwilio am farchnadoedd newydd ar gyfer gweithgareddau amrywiol, yn hytrach na chwilio am farchnadoedd newydd ar gyfer gweithgareddau economaidd nad oes lle iddynt yn y dyfodol.
- Bydd unrhyw ymyriadau rheoli wedi'u teilwra sy'n deillio o brosiect AWFA yn helpu i gefnogi pysgotwyr i ddangos cynaliadwyedd eu cynnyrch a'r dulliau dal cysylltiedig.
- Nid yw swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n mynychu arddangosfeydd bwyd môr mewn gwledydd eraill yn helpu i werthu ein pysgod cregyn. Mae'r teithiau hyn yn wastraff llwyr o arian trethdalwyr. Bydd cyflenwyr pysgod yn canfod marchnadoedd newydd ar eu pennau eu hunain, dydw i ddim yn siŵr sut y gall Llywodraeth Cymru helpu o gwbl yn hyn o beth.

Twf ac Arloesedd - Cwestiynau 17, 18 ac 19

b.xxxvii Cafwyd 35 o ymatebion i gwestiwn 17, 33 i gwestiwn 18 a 35 i gwestiwn 19.

b.xxxviii Roedd yr ymatebion yn cynnwys amrywiaeth o argymhellion a sylwadau, sydd wedi'u grwpio i'r prif themâu canlynol nad ydynt yn hollgynhwysol:

b.xxxix Ehangu'r prosesu a gweithgareddau economaidd eraill – rôl Llywodraeth Cymru:

- Sicrhau bod modd allforio bwyd môr Cymru i wledydd yn yr UE a'r tu allan i'r UE.
- Annog prynwyr pysgod i ymweld â Chymru.
- Nodi cyfleoedd cyllid i gefnogi buddsoddwyr tramor a chymunedau lleol Cymru.
- Sicrhau bod y gwaith o reoli a thrwyddedu'r sector pysgodfeydd a dyframaethu yn cael ei wneud mewn modd sy'n gyson â'r amcanion strategol. Ers 2010, mae'r Llywodraeth wedi bod yn amharod neu wedi methu â chyflawni'r amcan craidd hwn yn effeithiol mewn modd ystyrllon ac, fel y cyfryw, mae gweithgarwch arloesol neu newid a hyrwyddir gan y diwydiant wedi'i rwystro gan fiwrocratiaeth rwysgfawr.
- Darparu cymorth i'r sector prosesu er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniad craidd. O fewn y ffrydiau ariannu cyfredol, mae bron yr holl becyn cymorth sydd ar gael yn tarddu o gyllid EMFF. Yn anffodus, gan nad yw Llywodraeth Cymru wedi bodloni pryderon y diwydiant, ychydig iawn o ymrwymiad buddsoddi a gafwyd gan y diwydiant.
- Annog rheoli symud i ffwrdd o'r gweithgareddau hyn nad oes dyfodol iddynt, yn hytrach nag ymateb yn ddiweddarach i argyfyngau.
- Helpu i dyfu'r sector trwy gyllid a chymorth gyda seilwaith, rheoleiddio diogelwch bwyd a hyfforddiant.

- Darparu hyfforddiant ac ariannu gwelliannau i gychod ac offer i gymhwyso pysgotwyr a'u cychod ar gyfer gwaith arall.
- Mae'r sector pysgota yn aml yn gweld Llywodraeth Cymru fel rhwystr rhyngddynt ac EMFF. Felly, rydym o blaid cael rhywbeth yn lle'r FLAGs a ariennir gan yr UE, sy'n gweithio mewn cymunedau pysgota a chyda'r diwydiant ar sail datblygu lleol dan arweiniad y gymuned. Dylai cyllid EMFF fod ar gael yn hawdd a dylid symleiddio ceisiadau am gyllid.
- Meithrin cysylltiadau mewn cymunedau arfordirol. Deall rolau/dulliau pysgota/marchnadoedd/daearyddiaeth. Mae gormod yn dod o'r tu ôl i ddesg – meithrin ymddiriedaeth.
- Gellir gwella'r berthynas â'r byd academiaidd trwy gael arweiniad gan y diwydiant. Mae Fisheries Innovation Scotland yn enghraifft dda o ddiwydiant yn arwain yr agenda ymchwil gyda dull cadwyn gyflenwi. Mae angen gwneud newidiadau sylweddol i'r ffordd mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn ymchwil a gwyddoniaeth mewn partneriaeth â'r sector er mwyn sicrhau allbwn ystyrllon.

b.xi Cymunedau arfordirol

- Dylai cymunedau arfordirol fod yn ymwneud â datblygu cyfleoedd newydd gan y byddem yn dibynnu ar y gymuned leol i ymuno â'r gweithlu ac i hwyluso newidiadau a all ddigwydd yn yr ardal o ganlyniad i ehangu busnesau neu gymeradwyo safleoedd ac adeiladau newydd.
- Cefnogi cymunedau i sefydlu mentrau newydd gyda chymysgedd o arbenigedd, arian, siopau posibl - yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar.
- Cymhellion i bobl ifanc ddod i mewn i'r diwydiant - trwyddedau, grantiau, cynlluniau i newydd-ddyfodiaid ifanc, benthyciadau di-log i brynu offer a chychod.
- Cynllunio ar gyfer olyniaeth - trosglwyddo sgiliau i waed newydd, mentoriaid pysgota.
- Mae cymunedau arfordirol yn llawn genweirwyr môr. Trefnu sesiynau galw heibio yn lleol.
- Dylid ymgysylltu â chymunedau arfordirol, ond dylai'r penderfyniad terfynol ynghylch sut y dylai arian ar gyfer datblygu cyfleoedd pysgota gael ei wario gael ei wneud gan berchnogion cychod pysgota, nid paneli o bobl heb unrhyw beth wedi'i fuddsoddi yn y diwydiant.

b.xli Perthynas â'r byd academiaidd

- Mae rhyngweithio agos rhwng y gymuned ymchwil yng Nghymru a'i sectorau pysgodfeydd a dyframaethu. Onid y cwestiwn pwysig yw sut y gellir gwella'r cydweithio rhwng y Llywodraeth, Ymchwil a Diwydiant. O gofio'r sgiliau a'r meddylfryd sy'n bodoli mewn diwydiant ac mewn rhannau helaeth o'r gymuned ymchwil yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ffôl iawn yn y rhyngweithiadau cymharol ysgafn hyd yma.
- Mae'r byd academiaidd yng Nghymru yn cydweithredu yn bennaf â busnesau bwyd môr cefnog sydd wedi hen ennill eu plwyf nad oes arnynt angen y grantiau a sicrhau o botiau cyhoeddus cyfyngedig. Nid

oes gan rai BBaChau ddigon o amser, adnoddau na chyllid i gael y grantiau hyn. Mae'r byd academiaidd yng Nghymru ond â diddordeb mewn gweithio gyda chwmnïau a all ddarparu arian cyfatebol ar gyfer cymorth grant mawr ac, yn hanesyddol, nid oes ganddynt unrhyw ddiddordeb mewn ehangu'r sector dyframaethu os yw'n gofyn am ymdrech, os yw'n rhy gyfyngedig o ran elw ariannol i'r sefydliad neu os yw'n annhebygol o gyflwyno cyhoeddiadau mewn cyfnodolion allweddol a adolygir gan gymheiriaid.

- Gwell cyfathrebu rhwng y byd academiaidd a diwydiant. Ystyried cymhellion hefyd.
- Mae'r data gwyddonol yn dangos bod y moroedd mewn cyflwr critigol, ac mae'r diwydiant yn dweud nad oes unrhyw beth o'i le. Mae cyflwr truenus ein dyfroedd mewndirol yn dangos pwy sy'n iawn. Rhaid i gyrff llywodraethu gofio os caiff systemau morol eu cam-drin mai nhw sydd ar fai.
- Mae pysgotwyr yn gweld y byd academiaidd fel y gelyn sydd am roi'r gorau i bysgota. Mae angen i bysgotwyr fod yn glir ar ddechrau unrhyw brosiect ymchwil beth allai'r canlyniadau posibl fod iddyn nhw. Mae pob perthynas yn seiliedig ar ymddiriedaeth.
- Gwell cydgysylltu ar y syniadau sy'n ymwneud â'r wyddoniaeth a'r dystiolaeth sydd eu hangen i gefnogi rheoli pysgodfeydd mewn ffordd wybodus a thryloyw trwy gasglu a darparu data gan y diwydiant, gan gynnwys drwy bartneriaethau gwyddoniaeth gyda'r byd academiaidd, i gadw'r gwaith o reoli pysgodfeydd yn gyfoes, yn gymesur ac yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, ymdrechion ar y cyd i hybu arloesi a datblygu offer a dulliau mwy cynaliadwy; a threfniadau ar gyfer nodi a darparu adnoddau ar gyfer meysydd ymchwil â blaenoriaeth.
- Mae'n hanfodol eich bod yn ystyried unrhyw asesiad gwyddonol, a dim ond os yw rhanddeiliaid yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ac yn effeithiol y gellir cyflawni hyn. Yn ogystal â hyn, rhaid i'r data a gesglir gan rhanddeiliaid fod yn ddefnyddiol, mae angen cael cadernid gwyddonol a rhaid egluro pwysigrwydd hyn i'r holl rhanddeiliaid.
- Mae'n bwysig dechrau'r broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid ym maes gwyddor pysgodfeydd cyn gynted â phosibl. Gall ymgynghori â rhanddeiliaid yn gynnar helpu i ganolbwyntio ymchwil ar feysydd sydd nid yn unig yn ddiffygiol o ran data ond sydd, mewn gwirionedd, yn ddefnyddiol ar gyfer rheolaeth ymarferol yn y dyfodol.
- Creu Coleg Pysgodfeydd y Môr a Dyframaethu Cymru, gan ddod ag academyddion a physgotwyr ynghyd i rannu arbenigedd ym mhob agwedd ar y diwydiant. Gallai prentisiaethau a wneir mewn cyfleuster hyfforddi dynodedig gyda chymwysterau o'r radd flaenaf helpu i fynd i'r afael â derbyn myfyrwyr i'r diwydiant sy'n heneiddio trwy ddenu pysgotwyr gwrywaidd a benywaidd i'r diwydiant, a llenwi'r bwlch cymdeithasol rhwng academyddion sy'n cael mynediad at y maes a phoblogaeth pysgotwyr Cymru sy'n heneiddio. Defnyddio'r ardoll bysgota i ariannu hyfforddiant ac ymchwil a datblygu yng Nghymru.
- Rhaid i'r pwyslais ar ymchwil gael ei gydbwyso ag anghenion y farchnad.

- b.xlii Cyfleoedd i dyfu neu arallgyfeirio busnesau pysgota yng Nghymru
- Gweithio gyda'r diwydiant twristiaeth i hyrwyddo bwyd môr lleol.
 - Ni all y Llywodraeth ymyrryd mewn unrhyw ffordd gadarnhaol. Byddai gorfodi ymgysylltu rhwng y sector pysgodfeydd a dyframaethu a, er enghraifft, dwristiaeth yn annheg ac yn wahaniaethol. Er ei bod yn ddigon posibl bod rhywfaint o gymesuredd naturiol rhwng rhai pysgotwyr a thwristiaeth o dan rai amgylchiadau, ni fydd hyn yn fater cyffredin.
 - Os yw pysgodfeydd yn cael eu rheoli'n briodol a bod mwy o gyfleoedd, gall pysgotwyr fod yn bysgotwyr ac ni fydd rhaid iddynt ddiwynnu ar ddiwydiannau eraill.
 - Cynyddu marchnadoedd lleol gan ddefnyddio hysbysebion, gan bwysleisio pynciau poblogaidd ar hyn o bryd e.e. ôl troed carbon isel.
 - Mae angen fforwm ar bysgotwyr i fwydo i mewn i Lywodraeth Cymru.
 - Mae twristiaeth bysgota yn mynd yn llai wrth i gwsmeriaid fynd i'r môr a pheidio â dod o hyd i unrhyw bysgod. RHAID i'r stoc dyfu – dyna'r man cychwyn. Bydd y gweddill yn dilyn heb unrhyw fuddsoddiad mawr.
 - Mae arallgyfeirio i ddiwydiannau eraill yn heriol: mae gweithgareddau hamdden a diwydiannau morol y dyddiau hyn yn galw am longau arbenigol yn hytrach na chychod pysgota.
 - Cychod siarter – gweithgarwch nad yw'n cynnwys pysgota. Pysgota plaser, deifio, teithiau bywyd gwyllt.
 - Cymryd camau i wella genweirio môr yng Nghymru. Cael gwared ar rwydi ar gyfer draenogiaid y môr, a bydd pysgotwyr draenogiaid y môr o Loegr yn dod i Gymru yn hytrach na mynd i Iwerddon.
 - Mae un bysgodfa hamdden yng Nghymru sy'n ehangu'n gyflym: pysgota plu ar gyfer hyrddiaid. Mae gan Gymru bob un o'r tair rhywogaeth o hyrddiaid llwyd yn helaeth ac, os cânt eu rheoli'n briodol, byddant yn dod yn brifddinas hyrddiaid y Deyrnas Unedig.
 - Adroddiadau morol, casglu data. Cymryd gwyddonwyr morol o CNC. Cynorthwyo diwydiannau morol eraill.

Cynaliadwyedd y Fflyd - Cwestiynau 20, 21 a 22

- b.xliii Cafwyd 35 o ymatebion i gwestiwn 20, 30 i gwestiwn 21 a 33 i gwestiwn 22.
- b.xliv Roedd yr ymatebion yn cynnwys amrywiaeth o argymhellion a sylwadau, sydd wedi'u grwpio i'r prif themâu canlynol, nad ydynt yn hollgynhwysol:
- b.xlv Denu newydd-ddyfodiaid
- Mae gan y gweithlu ddemograffeg sy'n heneiddio, gyda recriwtio isel. Annog newydd-ddyfodiaid trwy ddatblygu cynllun hyfforddi a phrentisiaeth. Darparu cymorth ariannol ar gyfer cynllun o'r fath. Cymell pobl ifanc i fynd i mewn i'r diwydiant - trwyddedau, grantiau, cynllun i newydd-ddyfodiaid ifanc, benthyciadau di-log i brynu offer a chychod.
 - Mae gan fflyd y glannau elw isel y gellid ei gynyddu trwy ddod o hyd i farchnadoedd newydd mwy proffidiol a mwy o fynediad i gynhyrchion

sy'n bodoli eisoes (er enghraifft, trwy gynyddu cwota), manteisio ar rywogaethau newydd ac arallgyfeirio i waith morol arall.

- O ystyried y ffordd o fyw, mae llawer i ddenu pobl i'r rôl, fodd bynnag, heb ddealltwriaeth y Llywodraeth a chydymffurfio'n briodol â'i rôl fel rheolwr neu awdurdod trwyddedu ar gyfer gweithgarwch – sut arall y gellir ei gweld ar wahân i rôl sy'n cael ei 'rheoli' i ddirywiad ac allan o fodolaeth.
- Byddai ymchwil a datblygu mewn perthynas â physgodfeydd cefnforol a dyfnforol y gaeaf yn galluogi cau'r sector pysgod cregyn y gorfanteisir arno mewn rhai ardaloedd yn dymhorol. Byddai hyn yn rhoi cyflog i bysgotwyr dros y gaeaf ac yn osgoi'r incwm ffyniant a methiant tymhorol ym mhrofiad y rhan fwyaf o griwiau'r glannau. Byddai cyflogi criwiau yn llawn amser yn denu pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol i'r diwydiant i ddisodli'r boblogaeth sy'n heneiddio.
- Sicrhau bod newydd-ddyfodiaid yn ficrofusnesau. Sicrhau eu bod wedi'u lleoli yng Nghymru. Sicrhau eu bod yn talu eu trethi. Sicrhau bod yr elw yn helpu'r economi leol. Sicrhau bod y cynnyrch yn cael ei gadw yn y DU.
- Darparu cyfleoedd prentisiaeth i bobl leol yn eu cymunedau eu hunain fel nad oes rhaid i bobl ifanc adael i ennill bywoliaeth.
- Mae twf cyson a chynaliadwy yn creu hyder.
- Mae angen coleg hyfforddi Pysgodfeydd y Môr a Dyframaethu yng Nghymru i roi cyfle i bobl ifanc ymuno â diwydiannau morol.
- Mae angen hyrwyddo cyfle cyfartal yn y diwydiant; ar hyn o bryd, mae menywod sydd eisiau ymuno â'r diwydiant wedi'u cyfyngu i weithio ym maes prosesu neu weinyddu.
- Gallai cyllid ar gyfer newydd-ddyfodiaid, prentisiaid, dulliau arloesi cynaliadwy ac offer ar longau i berchenogion cychod newydd helpu i annog newydd-ddyfodiaid.
- Yr hyn y mae angen i ni ei weld yw arloesedd gwirioneddol yn y sector trwy archwilio diwydiant pysgodfeydd cregyn sy'n wirioneddol gynaliadwy, proteinau pysgod genetig newydd cynaliadwy a datblygu economi wirioneddol leol ar gyfer pysgod Cymru a ddelir yn gynaliadwy (Brand Cymru). Mae angen newydd-ddyfodiaid ym maes gwyddoniaeth, marchnata a chwmniau sylfaenol cynaliadwy er mwyn creu dyfodol newydd ar gyfer moroedd Cymru, yn ogystal â chefnogi datblygiad twristiaeth bywyd gwyllt gynaliadwy, ail-gyflwyno rhywogaethau eiconig (h.y. yr eryr tinwyn), diogelu/cadwraeth yr amgylchedd morol ac uwchraddio ein seilwaith twristiaeth presennol.
- Llywodraeth Cymru i reoli pysgodfeydd dal gwyllt yn effeithiol ac i ganiatáu gweithgareddau dyframaethu newydd, fel y'u disgrifir o fewn amcanion strategol y Llywodraeth ei hun.
- Gallai diwydiant pysgota Cymru weithio'n agosach gyda gwasanaethau megis Gyfa Cymru, Ysgolion a Cholegau i annog newydd-ddyfodiaid.
- Dileu cwota neu drwyddedau drud sy'n eiddo i ddefnyddwyr a'u cyfnewid am alluoedd pysgota a drosglwyddir yn ôl i Lywodraeth Cymru pan fydd defnyddiwr yn ymddeol i gael ei ailddyrranu i ymgeiswyr ifanc.

b.xlvi Rheoli a gorfodi

- Gorfodi terfynau pysgota â chewyll, cwota cregyn moch a gwaharddiadau cimychiaid wyog.
- Gwell monitro i nodi troseddwy. Cymryd trwyddedau oddi ar droseddwy.
- Peidio â gadael i gychod tramor bysgota yn nyfroedd Cymru.
- Dal yr holl ddalfa a chyfyngu ar nifer y diwrnodau ar y môr.

b.xlvii Cynaliadwyedd amgylcheddol

- Canolbwyntio ar ddyfodol cynaliadwy yn hytrach na thwf.
- Gwneud y fflyd yn llai o faint ac yn fwy niferus. Gwahardd monofilament/rhaffau a rhwydi plastig.
- Mae sicrhau rheolaeth gynaliadwy o'r adnoddau naturiol y mae fflyd Cymru yn dibynnu arnynt, a hyrwyddo cydnerthedd eu hecosystemau sylfaenol yn hollbwysig o ran cynnal y fflyd a chymunedau arfordirol ehangach, nawr ac yn y dyfodol. Y ffordd orau o sicrhau bod fflyd Cymru'n cael ei chynnal yw trwy adfer a chynnal y stociau y mae'n dibynnu arnynt i lefelau cynaliadwy yn unol â'r MSY ac i ddiogelu'r cynefinoedd.
- Yn y tymor hir, dylid newid y fflyd i ddefnyddiau eraill, yn hytrach na'i chryfhau yn erbyn darfodedigrwydd anochel.
- Cynnig cymhelliad arian parod i bysgotwyr sy'n rhoi'r gorau i ddefnyddio rhwydi ac yn symud i ddull bachyn a llinell.

b.xlviii Twf cynaliadwy pysgodfeydd a dyframaethu

- Darparu amgylchedd diogel a dibynadwy ar gyfer trin pysgod cregyn a buddsoddiad busnes.
- Bydd twf yn niweidio twristiaeth ac adnoddau naturiol.
- Integreiddio cwmnïau cydweithredol pysgodfeydd arfordirol â datblygu ac ymchwil ym maes dyframaethu masnachol. Mae prosiectau'n bodoli ond nid oes fawr o synnwyr yn eu trafod nes bod rhywun yn dechrau gwranddo.
- Enghraifft glir o'r cyfleoedd ar gyfer twf cynaliadwy yw'r hyn mae Fforwm Gwymon Cymru yn ceisio ei wneud.
- Cydweithio a gwerthfawrogi safbwyntiau gwahanol.
- Bydd rheoli ymdrechion pysgota i lefel na fydd yn rhagori ar yr MSY yn helpu i sicrhau twf cynaliadwy o adnoddau morol naturiol Cymru.
- Rhaid i gyrff deddfwriaethol annog a hwyluso twf cynaliadwy.
- Ystyried arallgyfeirio i dwristiaeth, cynhyrchu ynni a dyframaethu, a rhoi cymhorthdal i gymunedau pysgota yn y gymuned er mwyn gwarchod ein hamgylchedd morol.
- Mae WNMP yn offeryn allweddol o ran datblygu'r amgylchedd morol mewn dull cynaliadwy.
- Mae twf cynaliadwy o ganlyniad i reolaeth dda. Mae pysgota yn gofyn am stociau pysgod a physgod cregyn iach, mae dyframaethu yn gofyn am ddŵr glân ac mae cymunedau arfordirol yn gofyn am gymorth a chefnogaeth tymor hir i gynnal yr amgylchedd y maent yn byw ac yn gweithio ynddo.

- Datblygu strwythurau stoc tuag at weithgarwch genweirio.
- Diogelu gwaelod y gadwyn fwyd.

Tystiolaeth - Cwestiynau 23, 24, 25 a 26

b.xlix Cafwyd 37 o ymatebion i gwestiwn 23, 37 i gwestiwn 24, 34 i gwestiwn 25 a 33 i gwestiwn 26.

b.i Roedd yr ymatebion yn cynnwys amrywiaeth o argymhellion a sylwadau, sydd wedi'u grwpio i'r prif themâu canlynol, nad ydynt yn hollgynhwysol:

- b.ii Blaenoriaethau amgylcheddol/bioamrywiaeth awgrymedig ar gyfer ymchwil:
- Cynhesu byd-eang/y newid yn yr hinsawdd/tymereddau'r môr yn codi.
 - Ansawdd dŵr a llygredd o ddiwydiannau tir – dŵr ffo/carthffosiaeth/plastigau.
 - Dod o hyd i ffyrdd o adennill offer coll ac ymchwilio i effeithiolrwydd ac effaith offer addasedig.
 - Effaith rhwydi arfordirol.
 - Effaith treillio am gregyn bylchog.
 - Gwella pysgodfeydd draenogiaid y môr.
 - Dirywiad stociau eogiaid a brithyllod y môr.
 - Monitro morol i ategu'r sail dystiolaeth a rhoi'r syniad cyntaf o unrhyw newid; dyma'r cam cyntaf tuag at reoli amgylcheddau morol yn effeithiol.
 - Bioamrywiaeth ac yn arbennig cyflwr rhywogaethau a chynefinoedd Adran 7.
 - Cynaliadwyedd/gorbysgota pysgodfeydd crancod brown a chimychiaid ac, yn arbennig, mae angen ymchwil i gefnogi deddfwriaeth yn erbyn cymryd cimychiaid wyog.
 - Sgil-ddalffa dolffiniaid.
 - Effeithiau'r hinsawdd ar boblogaethau adar y môr a physgod troffig isel.
 - Rhywogaethau atal.
 - Rhywogaethau estron goresgynnol i sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio yn cael ei ddiweddarau o ran sbardunau'r newid yn yr hinsawdd a rheoli sectorau ar gyfer mesurau anffafriol. Dealltwriaeth fwy cyfannol o fectorau sy'n debygol o fod fwyaf cyffredin wrth symud rhywogaethau estron goresgynnol i ardaloedd newydd.
 - Effeithiau ar bysgod asgellog yn sgil pentyrru wrth adeiladu ffermydd gwynt/effeithiau cronol eraill ffermydd gwynt ar fioamrywiaeth a chynefinoedd.
 - Effeithiau genweirio môr [ar yr amgylchedd morol].
 - Effeithiau cyd-reoli cymunedol.
 - Gwybodaeth enetig fel rhan o'r broses o reoli pysgodfeydd yn gynaliadwy.

- b.iii Blaenoriaethau posibl ar gyfer y diwydiant:
- Asesu statws stociau pysgota a lefel y camfanteisio yn erbyn yr MSY.
 - Micro-economïau.
 - Dosbarthiad lleol.
 - Deietau iach.
 - Aseidiadau stoc ar gyfer stociau nad ydynt yn rhai TAC sy'n bwysig yn fasnachol a stociau TAC sy'n ddiffygiol o ran data.
 - Ardaloedd cylchol o fraenar a adawyd gan y môr.
 - Gwybodaeth am dargedau preswyl a thargedau masnachol dros dro.
 - Posibiliadau o ran dyframaethu yn lliniaru effeithiau gorlwytho gwaddodion o ddŵr ffo amaethyddol. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu hyd yma a ddylid dynodi parth Cymru gyfan yn barth perygl nitradau (NVZ) neu a ddylid mynd ati mewn ffordd fwy lleol.
 - Technolegau angori dyframaethu ac awtomeiddio cynnyrch.
 - Mynediad a hamdden.
 - Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.
 - Gweithgareddau heb eu rheoleiddio.
 - Cynefinoedd allweddol a rhywogaethau allweddol.
 - Gwymon.

b.iii Ffactorau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol a awgrymir i'w harchwilio:

- Penderfynu sut y gallai'r diwydiant gydweithio â gwyddonwyr i wella gwybodaeth am fôr Cymru.
- Asesu pa mor effeithiol yw'r broses o reoli pysgodfeydd.
- Gwerthuso sut mae cymunedau arfordirol yn elwa ar bysgodfeydd.
- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o fioamrywiaeth yn yr amgylchedd morol ac effeithiau negyddol gweithgarwch dynol.
- Addysg a hybu'r amgylchedd morol a bwyd môr.
- Dylai ymchwil gynnwys y sector preifat, a dylai creu swyddi yng nghymunedau arfordirol Cymru fod yn sbardun allweddol.
- Proffidioldeb.
- Gwaith cloddio agregau ac amddiffyn yr arfordir a goblygiadau'r rhain ar gymunedau arfordirol.
- Mae ymchwil eisoes wedi'i gwneud sy'n dangos bod manteision genweirio yn gorbwysu pysgota masnachol, a dylai hyn gael ei adlewyrchu yn y dulliau rheoli. Ymchwil pellach i werth genweirwyr hamdden o ran twristiaeth a gweithgarwch economaidd mewn cymunedau arfordirol.

b.iv Ymagwedd gydgysylltiedig at dystiolaeth

- Dylid adolygu ymchwil o'r gorffennol a'r presennol o dan y Strategaeth Tystiolaeth Forol, a dylai fod yn hygyrch trwy un porth.
- Byddai dull gweithredu cydgysylltiedig yn ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ddarparu ffocws a chyfeiriad strategol trwy gyfres o bolisïau rheoli pysgodfeydd cydlynol. Nid yw hyn wedi digwydd hyd yma.
- Canolfan wyddonol, megis Strategaeth Tystiolaeth Forol Llywodraeth Cymru i gyfuno ymchwil gwyddor môr.

- Peidio â meddwl am bysgodfeydd yn unig, bod yn strategol a datblygu gweledigaeth glir.
- Datblygu ymddiriedaeth rhwng yr holl grwpiau perthnasol a sicrhau gwell cyfathrebu. Bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol yn ystod y camau datblygu a chyflawni yn allweddol i sicrhau cefnogaeth a chynnydd yn erbyn nodau'r strategaeth.
- Dylai mwy o academyddion a rhanddeiliaid eraill fynychu'r WMAAG.
- Defnyddio canolfannau dyframaethu i rannu gwybodaeth, megis yr un sy'n cael ei sefydlu gan Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau.

Cyllid a Chymorth - Cwestiynau 27, 28 a 29

- b.lv Cafwyd 35 o ymatebion i gwestiwn 27, 36 i gwestiwn 28 a 29 i gwestiwn 29.
- b.lvi Roedd yr ymatebion yn cynnwys amrywiaeth o argymhellion a sylwadau, sydd wedi'u grwpio i'r prif themâu canlynol, nad ydynt yn hollgynhwysol:
- b.lvii Argymhellion ar gyfer targedu olynwyr i EMFF
- Sicrhau bod unrhyw gynllun yn y dyfodol yn gwella ar ddiffygion canfyddedig EMFF.
 - Cadw mentrau amgylcheddol EMFF.
 - Targedu'r gwelliannau i'r fflyd a chymorth i bysgotwyr.
 - Cadw deddfwriaeth wrth wraidd unrhyw gyllid, gyda ffocws penodol ar Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
 - Targedu ymchwil i ddulliau pysgota cynaliadwy a physgodfeydd newydd; a hwyluso masnach.
- b.lviii Diffygion gyda'r system ariannu bresennol, i gael sylw mewn unrhyw gynllun newydd
- Mae'n anodd cael gafael ar gyllid.
 - Systemau yn anhyblyg yn wyneb newid cyflym.
 - Canllawiau a ddarparwyd yn wael neu'n rhy gymhleth.
 - Rheolau ynghylch pwy all wneud cais am gyllid yn gyfyngedig, a'r broses dyfarnu ddim yn ddigon tryloyw.
 - Canfyddiad nad yw'r cae chwarae yn wastad a bod pysgotwyr Cymru sy'n gwneud cais am arian EMFF o dan anfantais o'u cymharu â physgotwyr o'r Alban, Iwerddon a Lloegr, a bod pysgotwyr y DU o dan anfantais o'u cymharu â physgotwyr eraill yr UE.
- b.lix Y rhesymau a roddwyd dros derfynu cyllid
- Ni ddylid rhoi cyllid ar gyfer dulliau sy'n niweidiol i'r amgylchedd megis rhwydi drysu ar y glannau, treillio a threillio am gregyn bylchog.
 - Dylid rhoi'r gorau i gymorthdaliadau i'r diwydiant pysgota o blaid cefnogi, datblygu a hyrwyddo genweirio môr, gyda phwyslais ar ddal a rhyddhau.
 - Pryderon ynghylch hyfywedd amgylcheddol, moesegol neu economaidd.

- b.ix Rhesymau a roddwyd dros barhau i ariannu
- Er mwyn cefnogi'r diwydiant yn wyneb rheoliadau sy'n newid.
 - Cadw at rwymedigaethau cyfreithiol megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
 - Mynd i'r afael â materion amgylcheddol.
 - Cefnogi masnach.
- b.lxi Cyfleoedd posibl ar gyfer buddsoddi
- Ynni adnewyddadwy'r môr.
 - Dyframaethu.
 - Arallgyfeirio'r fflyd.
 - Awgrymwyd y dylai sector ynni adnewyddadwy'r môr fod yn fewnfuddsoddwr i gefnogi cydfodolaeth ynni adnewyddadwy'r môr a physgota masnachol.
 - Bwyd môr Cymru yn dymhorol, yn gynaliadwy ac yn cael ei hyrwyddo'n dda.
 - Gwahardd rhwydi ar y glannau er mwyn gwella genweirio môr salmonidau
 - Cynyddu cyfanswm y pysgota neu newid y system gwota fel bod modd dosbarthu cwtâu yn ôl angen a stociau cymunedol.

Ymatebion rhydd

- b.lxii Cafwyd pedwar ymateb rhydd na chyflwynwyd trwy'r ffurflen ymgynghori. Yn ogystal, roedd sawl ymateb yn cynnwys ymateb cyffredinol yn ogystal â'r ffurflen wedi'i chwblhau.
- b.lxiii Yn anffodus, collodd Cymdeithas Porthladdoedd Prydain y dyddiad cau ar gyfer ymateb wedi'i deilwra i'r ymgynghoriad, ond cyflwynodd ei adroddiad *A New Deal for UK Fishing Ports* (Awst 2019) i'w ystyried. Er nad yw'n benodol i Gymru, mae'r BPA yn cynrychioli porthladdoedd ledled y DU. Mae'r adroddiad yn argymhell y canlynol:
- Cronfa pysgodfeydd trawsnewidiol ledled y DU yn lle EMFF, sy'n blaenoriaethu seilwaith, arallgyfeirio economïau arfordirol a chystadleurwydd porthladdoedd.
 - Bod angen addasu'r gofyniad Cyswllt Economaidd fel bod rhaid i holl gwota'r DU gael ei ddal ym mhorthladdoedd y DU.
 - Cynnal mynediad ffafriol i farchnadoedd tramor.
- b.lxiv Cyflwynodd Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffordd, Morwrol a Thrafnidiaeth (RMT) ymateb rhydd i'r ymgynghoriad, gan godi'r canlynol:
- Mae'n hanfodol i fuddiannau eu haelodau morwrol nad yw polisi morol yn y dyfodol yn arwain at gollu swyddi mewn llongau masnachol a phorthladdoedd.

- Roeddent yn siomedig nad oedd y ddogfen ymgynghori yn cydnabod statws hunangyflogedig y gweithlu pysgota, gyda'i risgiau cydredol i safonau cyflogaeth sylfaenol.
- Dylai Llywodraeth Cymru bwysleisio arferion rheoleiddio a dadreoleiddio gwael sy'n effeithio'n andwyol ar weithwyr Cymru, yn enwedig hawlildiadau o reoliadau mewnfudo ar gyfer y diwydiant pysgota, fel y gwelwyd yn y diwydiant gwynt ar y môr ble mae hawlildiadau ar gyfer mewnfurio criw tramor ar delerau cyflogaeth is ac israddol i weithwyr domestig yn cael eu caniatáu.
- Roedd yr RMT yn argymhell y dylai polisïau pysgodfeydd a morol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol gael eu gosod yn y cyd-destun hwn ac i'w hymgyrch *Save Our Seafarers 2020* gael ei hymgorffori mewn polisi i amddiffyn morwyr Cymru rhag dadreoleiddio niweidiol.

b.lxv Tynnodd Cyngor Sir Ynys Môn sylw at gysylltiad economaidd, amgylcheddol a diwylliannol hirsefydlog yr ynys â'r môr, gan ddadlau'r canlynol:

- Bod pob mesur rhesymol yn cael ei gymryd i sicrhau bod yr amgylchedd morol yn cael ei reoli, ei gefnogi a'i ddiogelu i sicrhau dyfodol cynaliadwy a ffyniannus i gymunedau arfordirol gwledig Cymru.
- Mae'n bwysig sefydlu sail dystiolaeth gadarn a thryloyw i sicrhau cydbwysedd rhwng cadwraeth, pysgota a datblygu, a deall effeithiau Brexit yn y dyfodol.
- Mae datblygu cynaliadwy yn unol â nodau llesiant yn y dyfodol a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn bwysig, ond ni ddylai fod ar draul busnesau lleol.
- Mae angen cynlluniau wrth gefn i liniaru effeithiau [ymadael â'r UE] ar allforion bwyd môr o Gymru. Mae marchnadoedd newydd yn bosibilrwydd i'w groesawu, ond mae angen eu harchwilio ymhellach.

b.lxvi Dywedodd unigolyn preifat sy'n bysgotwr hamdden brwd nad oedd y ddogfen ymgynghori'n mynd i'r afael â genweirio hamdden, felly cyflwynodd ymateb 'rhydd' yn lle llenwi'r ffurflen. Nododd y canlynol:

- Mae poblogaethau draenogiaid y môr wedi cael eu difrodi trwy orfanteisio masnachol, ac mae wedi dadlau dros reoli draenogiaid y môr ar sail hamdden yn unig, gan ddilyn model lwerddon lle gwaherddir pysgota masnachol am ddraenogiaid y môr.
- Dylid gwahardd rhwydi drysu ar y glannau gan ei fod yn targedu draenogiaid y môr fel sgil-ddalfa.
- Pysgota masnachol yw'r defnydd lleiaf cynaliadwy a lleiaf proffidiol o adnoddau, tra bod genweirio hamdden yn cyfrannu mwy at economi Cymru ac yn fwy cynaliadwy. Felly, dylai'r ymateb i'r ymgynghoriad roi sylw i enweirio.

b.lxvii Yn ogystal ag atebion rhydd annibynnol, cyflwynodd sawl sefydliad amgylcheddol grynodedb cyffredinol yn ychwanegol at eu hatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL), y Gymdeithas Cadwraeth Forol (MCS), y Gymdeithas

Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB), Cymdeithas Ecologol Prydain (BES) ac Ymddiriedolaethau Natur Cymru (WTW). Nid yw'r hyn sy'n dilyn yn rhestr hollgynhwysol o'r hyn a ddywedwyd, ond mae'n adlewyrchu'r prif themâu a'r argymhellion a ddaeth i'r amlwg.

b.lxviii Beirniadaeth ar yr ymgynghoriad a Llywodraeth Cymru, ac argymhellion ynghylch gweithio mewn seilo

- Beirniadwyd y ddogfen ymgynghori am ganolbwyntio ar bysgodfeydd, yn hytrach na'r nod o sicrhau ecosystem forol iach a gweithredol, sydd hefyd o fudd i'r diwydiant pysgota.
- Dywedodd sefydliadau y dylai Llywodraeth Cymru symud oddi wrth ddull sy'n seiliedig ar sector tuag at ddull integredig seiliedig ar ecosystemau, a bod diwylliant o weithio mewn seilo yn atal ffyrdd mwy blaengar a chydgyssylltiedig o weithio, gan arwain at bryder na fydd Llywodraeth Cymru yn gallu cyflawni o ran rhwymedigaethau rhyngwladol a domestig i sicrhau bod moroedd Cymru'n cael eu rheoli'n dda ar ôl Brexit.
- Codwyd pryderon bod adnoddau a chapasiti o fewn Cangen Forol Llywodraeth Cymru yn cyfyngu ar y gallu i reoli'r amgylchedd morol mewn ffordd gynaliadwy. Mae angen mynd i'r afael â chapasiti'r tîm hwn.
- Nodwyd bod pwysigrwydd economaidd twristiaeth, prifysgolion a llywodraeth leol i gymunedau arfordirol yn llawer mwy na physgodfeydd (£602 miliwn yn erbyn £24 miliwn), felly awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i ecosystemau morol iach, glân a bioamrywiol, ac nid dull seilo o ymdrin â physgodfeydd. Pwysleisiwyd yr angen i adrannau'r Môr a Physgodfeydd weithio gyda'i gilydd, nid ar wahân, ar yr WNMP, Datganiadau Ardal a'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur.
- Roedd sawl ymateb yn argymhell dilyn esiampl ymgynghoriad cyfochrog Llywodraeth Cymru ar ffermio ar ôl Brexit, sy'n symud i ffwrdd o gefnogi ffermio yn uniongyrchol o blaid ymagwedd gydgyssylltiedig sy'n pwysleisio cynaliadwyedd ac sy'n cynnwys cynigion sy'n ymdrin ag argyfwng yr hinsawdd.

b.lxix Argymhellion yn ymwneud â sail dystiolaeth a bylchau

- Dylai pob achos o reoli pysgodfeydd fod yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol, a dylid ei fonitro a'i orfodi'n effeithiol.
- Mae bylchau data sylweddol ar gyfer rheoli'r môr y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw. Tan hynny, dylid defnyddio dull rhagofalus o reoli.
- Dylid gwneud mwy o ymchwil i effeithiau Brexit ar sectorau eraill yn ogystal â physgodfeydd, a dylid ymchwilio i fanteision amgylchedd morol a reolir yn dda, ac ni chafodd hyn ei ystyried yn llawn yn yr ymgynghoriad.
- Croesawyd datblygiad y Strategaeth Tystiolaeth Forol ar gyfer Cymru. Argymhellwyd y dylid egluro y bydd hyn yn canolbwyntio ar reolaeth forol gynaliadwy.
- Ni ddylid agor pysgodfeydd newydd ar gyfer corbenwaig a llymriaid a dylid ceisio tystiolaeth o effaith pysgodfeydd o'r fath.

- Mae tystiolaeth bod y newid yn yr hinsawdd yn cael effaith andwyol uniongyrchol ar rywogaethau o ysglyfathau adar y môr yn cynyddu. Mae angen ymchwil i fynd i'r afael â'r bylchau mewn tystiolaeth sy'n gysylltiedig â stociau pysgod porthiant a dirywiad adar y môr yn nyfroedd Cymru. Dylai hwn fod yn faes allweddol i ganolbwyntio arno yn y Strategaeth Tystiolaeth Forol.
- Dylid dyrannu unrhyw gwota newydd gan ddefnyddio system sy'n seiliedig ar ecosystemau, gan ystyried materion yn ymwneud â bwydo bywyd gwylt sy'n cael eu heffeithio gan y newid yn yr hinsawdd. Roedd angen i'r ymchwil ddeall yn well anghenion bwyd mamaliaid ac adar y môr.
- Mae diffyg tystiolaeth yn ymwneud â phoblogaethau morfilod a megaffawna yn y DU. Dylai Cymru fod â chynllun gweithredu morfilod a megaffawna i fynd i'r afael â hyn.
- Dylai Gweithgorau Ardal Adnoddau Strategol fod â chorff goruchwyllo i archwilio effeithiau cronol uchelgeisiau ynni economaidd ac adnewyddadwy yn nyfroedd Cymru. Mae angen ymchwil i effeithiau cronol ynni adnewyddadwy.

b.lxx Deddfwriaeth

- Dylid ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mewn unrhyw ddeddfwriaeth pysgodfeydd i'r dyfodol.
- Dylid rhoi mwy o bwyslais ar gyflawni o dan ddyletswydd Adran 6 o fewn Deddf yr Amgylchedd (Cymru).
- Roedd pryder bod Bil Pysgodfeydd y DU yn diddymu gofynion cynaliadwyedd hanfodol fel y nodir yn y PPC. Nododd y Gweinidog y byddai'r ymgynghoriad hwn yn ymchwilio i ddyletswydd ar Weinidogion Cymru, ond ni ymdriniwyd â'r mater hwn yn y ddogfen ymgynghori. Dylai Llywodraeth Cymru roi sylw i'r mater hwn cyn gynted â phosibl.
- Roedd cryn bryder a siom bod Llywodraeth Cymru yn archwilio dull amgen o ymdrin â'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf (MSY) yn y ddogfen. Mae'r MSY yn nodwedd o nodau datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig ac UNCLOS. Pysgota yn unol â'r MSY a diogelu cynefinoedd fydd y ffordd orau o adennill stociau a sicrhau bod y fflyd yn cael ei chynnal.
- Rhaid i unrhyw gynllun newydd lle caiff cwota newydd ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru gynnwys meini prawf amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac wedi ymrwmo i ddull rhagofalus a rheoli ar sail ecosystem.

b.lxxi Statws Amgylcheddol Da (GES)

- Croesawyd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Fframwaith y Strategaeth Forol ar gyfer cyflawni GES.
- Nid yw poblogaethau adar môr y DU yn cyflawni GES. Mae angen cyflwyno Strategaeth Cadwraeth Adar Môr Cymru ar frys.
- Ni chaiff GES ei gyflawni yng Nghymru erbyn 2020, a dylai Llywodraeth Cymru gyfeirio datblygiad polisi ac ymdrechion ar ôl

Brexit i fynd i'r afael â hyn a sicrhau system forol sy'n gweithredu'n iach.

- Dylid dileu sgil-ddalffa trwy ddulliau sy'n cynnwys dogfennaeth lawn a rheoli cyfanswm y dalffeydd.

b.lxxii Ymgysylltu â rhanddeiliaid

- Dylai ymgysylltu â rhanddeiliaid gynnwys cymunedau arfordirol lleol i raddau mwy helaeth o lawer.
- Gellid gwella'r berthynas rhwng y byd academaidd a diwydiant trwy ddefnyddio proses casglu tystiolaeth a data gwyddonol cynhwysol a chadarn sy'n cynnwys ymgysylltu â'r diwydiant a rhanddeiliaid.

b.lxxiii Rheoli Moroedd Cymru

- Dylid gweithredu strategaeth AMG i Gymru. Mae hyn yn galluogi rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, llesiant cenedlaethau'r dyfodol, a dylai gynnwys parhau i ymrwymo i beidio â cholli diogelwch ar ôl Brexit.
- Dylid atal gweithgareddau niweidiol, a dylid gorfodi hyn, er mwyn cynnal a gwella Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru.
- Dylid sefydlu Gwasanaeth Pysgodfeydd Môr a Bywyd Gwyllt newydd er mwyn gweithredu dull sy'n seiliedig ar ecosystemau i ymdrin â rheolaeth forol a physgodfeydd yn nyfroedd Cymru, fel y nodir yn Strategaeth Forol y DU.
- Er bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn argymhell Datganiad Ardal Forol ar gyfer Cymru yn unig, mae'r WTW yn cynnig ymagwedd moroedd rhanbarthol yn lle hynny.
- Nid yw'r cynigion ar drwyddedau rheoli addasol a dyframaethu yn y ddogfen ymgynghori yn ddigon manwl. Mae angen ymgynghoriad ar wahân i hwn.
- Ffurio Grŵp Technegol Dyframaethu Cymru (gan ddilyn grwpiau'r DU a'r UE) i asesu'r angen, argaeledd y farchnad ac i ardystio cynaliadwyedd.

b.lxxiv Sylwadau ac argymhellion twf y diwydiant

- Mae canolbwyntio ar sbarduno gweithgareddau economaidd proffidiol yn mynd yn groes i ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy.
- Dylid rheoli cyfleoedd pysgota a chyfleoedd ariannu yn y dyfodol mewn ffordd sy'n gwneud y gorau o warchodaeth amgylcheddol a datblygiad cymdeithasol ac economaidd. Dylid dyrannu unrhyw gwota ychwanegol ar sail meini prawf cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol tryloyw i gymell yr arferion pysgota mwyaf cynaliadwy.
- Dim ond ystyried cynyddu dyframaethu os gellir gwneud hynny mewn modd sy'n amgylcheddol gyfrifol sy'n cyflawni ymrwymadau megis Nodau Datblygu Cynaliadwy a chyflawni GES o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Ffurio Grŵp Technegol Dyframaethu

Cymru (gan ddilyn grwpiau'r DU a'r UE) i asesu'r angen, argaeledd y farchnad ac i ardystio cynaliadwyedd.

- Ar gyfer y diwydiant pysgod cregyn, er mwyn hwyluso twf a rhoi sicrwydd i fusnesau, canfod y capasiti cario a chapasiti cronol y corff dŵr sy'n derbyn, a sensitifrwydd y cynefin ac unrhyw ddynodiadau.